


R  
D


W





Willie Owen Hughes,  
"Gwynfa",  
Manod Rd,  
Blaenau Ffestiniog.

19eg Tachwedd 1921.



CORNEL YM MLAENAU FFESTINIOG.

TRO TRWY'R  
GOGLEDD.



GAN

OWEN EDWARDS.



1907.

—

SWYDDFA "CYMRU," CAERNARFON.



## RHAGYMADRODD.

---

Y MAE tuag ugain mlynedd er pan ysgrifennwyd y nodiadau hyn,—nodiadau brysiog gŵr ar daith. Rhoddwyd ambell gywiriad ynddynt, ac ambell ddernyn o ychwanegiad; ac feallai fod y darnau o frethyn newydd yn wahanol eu lliw i'r hen frethyn, ac yn ei gyfarth.

Mae bywyd y byd yn gweddnewid yn gyflym iawn yn y blynyddoedd hyn; ac y mae llawer o'r cyfeiriadau sydd yma,—yn enwedig cyfeiriadau gwleidyddol,—wedi colli eu dyddordeb os nad eu hystyr.

Mae llawer un a enwir yma na chaf glywed ei lais mwy. Gwelais y tyrfaoedd yn arwyl Thomas Ellis yng Nghefn Ddwysarn, clywais roddi Silvan Evans i huno yn Llanwrin, gwelais garreg las a llythrennau aur ar fedd Charles Ashton yng nghornel eithaf mynwent Mallwyd. Ni chaf weled mwy yr hen athraw gasglai waith Edward Morris yng Ngherrig y Drudion, nac yntau adroddai hanesion cyfnod y chwyldroadau imi ar riw Harlech, na'r hwn fu'n son yn gynnil wrthi am hen ddefodau Mawddwy. Mae pentref Llan ym Mawddwy, fel y ceisiaf fi ei ddarlunio, wedi diflannu; nid oes neb o deulu Ceiriog ym Mhen y Bryn heddyw, nac o deulu Richard Morris yn Nant y Glog. Mae llawer gallu newydd wedi dod i fod,—llawer ysbryd



newydd, llawer gobaith newydd, llawer ysgol  
newydd,—er pan fum i yn y broydd ddarlunnir  
yn y tudalennau sy'n dilyn.

Ond er cymaint y newid, gobeithiaf fod am-  
bell darawiad yn y llyfr ieddr adgyfodi rhyw  
olygfa, rhyw nawn, rhyw fangre hoff i ennyd o  
fywyd ym meddwl y darllennydd.

OWEN EDWARDS.



## CYNHWYSIAD.

---

	TUD.
I. BLAENAU FFESTINIOG ... ..	9
<p>Cartref llafur. Yr Arennig. Traws Fynydd. Ffestiniog. Stryd Ffestiniog. Y cip olwg cyntaf ar chwarel. Chwarel y Llechwedd. Y streic. Y Foty a Bowydd. Teimpladau dyn gwlyb. Dan y ddaear. Neillduolion y chwarelwyr.</p>	
II. Y PERTHI LLWYDION. ....	25
<p>Trwy Gwm Tir Mynach. Y Gelloedd yn y gaeaf, ac yn yr haf. Cerrig y Drudion. Ffordd Hafod Lom. Y Perthi Llwydion. Edward Morris, a'i gân; apelio at uchelwyr. Glan y Gors. Chwyldroad 1649 a Chwyldroad 1789; Edward Morris a John Jones. Chwerthiniad Dr. Edwards. Pentre Foelas.</p>	
III. O GYLCH CARN FADRYN. ... ..	41
<p>Pwllheli. Rhyd y Clafdy. Carreg hanesiol. Carn Fadryn. Nanhoron. Bedd Robert Jones Rhos Lan. Cartref Ieuan o Leyn. Ty Bwleyn. Madryn.</p>	
IV. HARLECH ... ..	57
<p>Cartref Bardd Cwsg. Castell Harlech. J. R. Jones o Ramoth. Adar Rhianon a Brain Harlech. Cwmni ar y rhiw. Cipolygon ar hanes.</p>	

- V. TY'N Y GROES ... .. 65
- “Byddigions” y Bermo. Siwrne i le heb hanes iddo. Y Bont Ddu. Y Faner. Ty'n y Groes a'i olygfeydd. Y Rhaeadr Du. Mynwent y Ganllwyd.
- VI. LLAN YM MAWDDWY ... .. 81
- Bwlch y Groes a'i adgofion. Tydecho Sant a Maelgwn Gwynedd. Ty Simon Sion Prys. Price o Fawddwy. Hen arglwyddiaeth; rhent arglwydd. Tafarn yr Haul. Tri chyfarfyddiad.
- VII. PEN Y BRYN ... .. 97
- Dringo'r Berwyn. Y lleisiau glywodd John Ceiriog Hughes. Y mynyddoedd. Pen y Bwlch. Nant y Glog. Gŵr Pen y Bryn. Ceiriog,—ei naturioldeb a'i onestrwydd; llais Cymru.
- VIII. BRYN MELYN ... .. 105
- Cartref J. R. Jones o Ramoth. Yr Aran ac afon Twrch. Golygfeydd mynyddig. Pwll Cynhybryd. Cynllwyd.
- IX. ADFYFYRION ... .. 111
- Esgusawd yr ysgrifennydd,—“Mae'r oll yn gysegredig.”

## Y DARLUNIAU.

---

Tynnwyd y darluniau hyn, oddigerth ychydig a nodir, gan y diweddar John Thomas, Cambrian Gallery, Lerpwl. Yr oedd hanes a llenyddiaeth Cymru'n ddyddorol iawn i Mr. Thomas; a phan ymwelai â gwahanol ardaloedd Cymru, mynnai ddarlun o bob gŵr enwog ac o bob lle hanesiol.

### DARLUNIAU DALEN LAWN.

Cornel ym Mlaenau Ffestiniog	Wynebdddarlun.
Un o'r ffyrdd i Ffestiniog	Ar gyfer tud. 9
Y Chwarel adeg Streic*	" " 17
Stryd Fawr y Bala	" " 25
Pentref Cerrig y Drudion	" " 33
Carn Fadryn a Thy'n y Pwll*	" " 41
Madryn	" " 49
Castell Harlech	" " 57
Un o Strydoedd Nefyn	" " 65
Dan gysgod y mynydd, Ffestiniog	" " 73
Eglwys Llan ym Mawddwy	" " 81
Cornel o'r hen Lan ym Mawddwy†	" " 88
Pen y Bryn, Llanarmon	" " 97
Hen Bont y Pandy	" " 105

---

\* Gwawl-arluniau gan yr awdwr.

† *Sketch* gan S. Maurice Jones, oddiwrth wawl-arlun gan yr awdwr.


## DARLUNIAU PEN DALEN.


	TUD.
Ym Mlaenau Ffestiniog .....	9
Tafarn to brwyn, Cerrig y Drudion .....	25
Y Garn .....	41
Harlech a'r Castell .....	57
Broom Hall .....	65
Pen Bwlch y Groes .....	81
Nanhoron .....	97
Y Cwm Croes* .....	105

---


\* Gwawl-arlun gan yr awdwr.







UN O'R FFVRDD I FLAENAU FFESTINIOG.



YM MLAENAU FFESTINIOG.

## Tro trwy'r Gogledd.

### I. BLAENAU FFESTINIOG.

**N**ID pob ardal weithfaol fedr dynnu segur-wyr diddaioni fel myfi a'm tebyg iddi. Fel rheol, nid cyrchian hoff i ni ydyw cartref meibion llafur. Gwell gennym ryw ymdrochle ar fin y môr, neu ryw ffynnon rinweddol ymhell yn y mynyddoedd, lle cawn ein syrio a bowio inni, heb neb yn son am hawliau'r gweithwyr ac heb neb yn cofio am adnod sy'n dweyd mai trwy chwys ei wyneb y mae dyn syrthiedig i fwyta ei fara. Ond y mae Ffestiniog mor brydferth, er mai mangre llafur ydyw, fel y gwelir ninnau'n segura ymysg y chwarelwyr.



yno, fel gloewod byw ymysg gwenyn. Nid oes yno fŵg budr ac aflan i dduo popeth, y mae'r awyr mor glir a'r grisial, neu'n llawn o gymylau newydd eu geni o'r môr. Nid oes yno ysgubion a gwenwyn yn hyllu'r afonydd, y mae'r dwfr yn loew ac yn iach wedi rhedeg trwy Ffestiniog. Y mae'r lle'n bell ac yn wlawog, ond y mae'n lân ac yn brydferth ac yn iach. Os gwaith, rhowch waith y creigiwr neu'r chwarelwr i mi.

A fuost ti erioed, ddarlennydd, yng ngorsaf Arennig? Nis gwn pa ham y gwnaeth y cwmni beth mor brydyddol a rhoddi enw'r mynydd ar yr orsaf, nid ydyw'n beth tebyg i'w dull hwy. Y mae'n debyg nad oedd tafarn na phenty'n ddigon agos, ni welent unlle y gallai hyd yn oed y mwyaf digydwybod ddweyd ei fod yn ddigon agos i roddi ei enw ar yr orsaf. Yn wir, nid wyf yn siwr a oedd unlle yn y golwg o gwbl; gallai'r hen Arennig chwerthin mewn gwawd wrth edrych i lawr arnynt.

Da y galwyd yr orsaf yn Arennig. Dros adeiladau'r orsaf gwelir creigiau'n codi fel adfeilion rhyw gaerau mawr; a'r ochr arall, rhyngom a bryn caregog ac eithinog, y mae rhosydd digysgod, a ffordd Ffestiniog yn rhedeg yn uniawn trostynt rhwng dau fur. Son am unigedd, meddylwch am un newydd adael y Strand o'i ol, man prysurdeb y cenhedloedd, ac yn teithio rhwng yr Arennig a Thraws Fynydd. Gwel gymoedd gwyrddion gwylltion ym mhob cyfeiriad, gydag ambell das mawn du rhyngddo a'r goleu; a buan y daw i'r penderfyniad fod gan Amnodd gystal hawl ag unlle i alw ei hun yn ben draw'r byd. Yn yr ardal

hon, gellid erwydro am ddyddiau heb weled neb ond y defaid a'r cornchwiglod. Mor hyfryd unig ydyw, hyd yn oed o'i chymharu a Thraws Fynydd! Yn fy mhoced yr oedd papur newydd yn dweyd beth wneid yn y Senedd un o'r gloch y boreu hwnnw, a pha beth wneid yn Siam y prydawn cynt. Ond nid oes brysurdeb gwifrau trydanol yn yr ardal fynyddig hon; nid oes yma neb yn malio pen pabwren am Siam, nac am y Senedd ychwaith. Nid ydyw yr ychydig fugeiliaid sydd ar y mynyddoedd yn gweld holl brydferthwch y lle, ychwaith. Tybed fod Rhagluniaeth wedi rhoddi rhywun rywbyrd mewn lle wrth ei fodd? Y mae'r trefwr yn hiraethu am unigedd y mynydd, y mae'r mynyddwr yn hiraethu am ambell ffair; a phawb yn cwyno ar ei le. Faint bynnag o feiau roddir ar ein cefnau, gallwn gymeryd cysur o hyn,— rhoddir mwy o feiau ar Ragluniaeth nag ar y gwaethaf o honom.

Ond dyma lyn Tryweryn, a chawod lwyd yn dod i daenu ei haden drosto. "Mae hi'n bwrw gwlaw yn Ffestiniog bob amser," oedd sylw un o'm cyd-deithwyr. Ceryddais y dyn a wnaeth y sylw am dynnu casgliad cyffredinol oddiwrth rhy ychydig o enghreifftiau; ond maddeuais iddo pan glywais y gwlaw yn taro at fy nghroen cyn nos. Distawodd pob ysgwrn pan ddaethom i olwg Cwm Prysor; a phan roddodd y tren dro i fynd dros bont hir, cawsom olwg ardderchog ar yr Arennig. Nid oedd fy meddwl yn berffaith esmwyth, wedi darllen hanes llawer o ddamweiniau, pan oedd ein cerbyd ysgwydedig yn chwyrenllu hyd ael y mynydd, heibio

i lawer trofa serth, ac uwchben dyfnder mor fawr. Dywedodd palff o yriedydd rhadlon wrthyf, gyda gwên fel lleuad lawn, fod y tren wedi mynd oddiar y rheiliau unwaith, ac yntau hefyd.

Gwelsom Gastell Prysor, neu yn hytrach y bryncyn y safai arno, yn codi o'n blaenau; a thu hwnt iddo wele ddyffryn oerlwm agored Traws Fynydd. Daeth darn o englyn, oddiar fedd genethig, i'm cof,—

“ daear wleb  
“ Traws Fynydd tros fy wyneb.”

Hwyrach mai hwn, a chof am fedd un o gyfoedion fy mhentyndod, oedd wedi gwneyd i mi dybied mai lle gwlyb ac oer oedd Traws Fynydd. Y mae ereill dan fwy o gamargraff na minnau, oherwydd ebe un o'r cwmni,—

“ Traws Fynydd, hen le hyll,  
Dynion cam yn torri cyll.”

“Wele'r dynion, lle mae'r cyll,” ebe un arall mewn gwawd. Ond yr oedd y ddau'n gwneyd cam â Thraws Fynydd. Y mae ehangder yr ardal yn gwneyd iddi edrych yn fawreddog, y mae trumau mynyddoedd Ardudwy'n brydferth iawn, ac i lawr i gyfeiriad Eden y mae lleoedd mor ramantus ag unrhyw leoedd vng Nghymru. Cyn i mi gael cyfle i son am ei ffordd Rufeinig a'i beirdd yr oeddym wedi cychwyn tua Maentwrog. Gadawsom wlad lom agored a daethom i wlad y coed a'r cerrig a'r rhedyn tal, o

wlad Rhys Cain i wlad Edmwnd Prys. Toc daethom i wlad ardderchog o fynyddoedd, ac yr oedd y niwl a'r gwlaw a'u toai yn gwneyd iddynt ymddangos yn uwch ac yn fwy nag oedd-ynt. Hawdd y gallwn gredu mai gwlad y bardd a'r swynwr yw hon. Bron na fedrem weld y cafn dŵr yn mynd dros y ffordd, lle y gwnaeth-ai Edmwnd Prys i Huw Llwyd Cynfel sefyll dan y diferion pan yn mynnu mynd adre o'r dafarn yn rhy gynnar. Hoffaswn weld y ffenestr fach, ac Edmwnd Prys yn estyn ei ben allan o honi, yn mwynhau yr olwg ar drallod Huw Llwyd,—hyd nes y teimlodd fod bardd Cynfel wedi gwneyd i gyrn dyfu ar ei ben yntau, ac nas gallai dynnu ei ben yn ol o'r ffenestr gan y cyrn.

Toc daeth Llan Ffestiniog i'r golwg, ar fryn, a mynyddoedd o'i hamgylch. Dywedai un o'i thrigolion wrthym ei bod yn debyg i Jerusalem, ond cyfaddefodd na welodd mo Jerusalem erioed. Yr oedd y tren yn troi ac yn trosi llawer, er ysgoi'r glynnoedd dyfnion, ond nid oeddym yn anfoddlawn i aros yng ngwlad Huw Llwyd Cynfel a Morgan Llwyd o Wynedd. Cawsom gipolwg ar "ddyffryn Ffestiniog," lle gwastad fel bwrdd, ym mhell bell i lawr; ac yna dyma ni yn y Llan. Gorsaf brydferth iawn ydyw; yr oedd gwely o flodau gogoneddus ynddi, a thros eu lliwiau amryliw hwy gwelem y gadwen o fynyddoedd gleision ysgythrog.

Wrth fynd ymlaen i'r Blaenau, cawsom aml olwg ar y dyffryn odditanodd. Braich o'r môr oedd hwn unwaith, yn estyn i mewn rhwng traed mynyddoedd serth, ond y mae'r afonydd,

trwy gludo daear nos a dydd iddo, wedi ei wneyd yn ddyffryn gwastad. Beth bynnag ydyw ystyr y gair Ffestiniog, y mae ystyr y gair Blaenau yn amlwg. Y mae yng nghilfach y mynyddoedd, ym mlaen eithaf y cwm. Y mae ffurf y pentref yn hanner cylch, a'i wyneb, wrth gwrs, i gyfeiriad y dyffryn, a'i gefn at y mynyddoedd a'r chwarelau. Y peth dery ddyn di-eithr ydyw glendid y tai a gloewder yr aberoedd dwfr, ac ni bydd yn hir yn gwneyd ei feddwl i fyny i hoffi ac i barchu'r lle.

Wedi disgyn a dewis ein gwesty, cerddasom drwy brif ystryd Ffestiniog. Nid rhyfedd ei bod yn lân, y mae yno gymaint o wlaw a ffrydiau dyfroedd. Peth rhyfedd yw gweld y creigiau'n edrych dros ben y tai ar yr ystryd, ac weithiau'n sefyll, fel rhyw anghenfil mawr, ar ochr yr heol. Yr oedd yno siopau da,—digon o lyfrau a ffrwythau. Ond ychydig o ddarluniau welais,—dim ond oleograph a photograph welid ym mhobman, arwydd weddol sicr nad yw'r celfau cain yn blodeuo llawer. Er hynny y mae gan Ffestiniog ei harlunydd, ond ni hoffwn ddweyd na un ai'r pwyntel ai'r camera sy'n talu iddo. Nid oedd ond ychydig iawn o bobl hyd y stryd, ond clywn swn piano a chan o lawer ty. Yr oedd pob peth yn berffaith heddychlon a thawel, ac anodd oedd coelio fod pedwar cant a hanner o bobl ar y streic y diwrnod hwnnw. Ni welsom gymaint a ffenestr doredig. Tra'n syllu a meddwl, clywem lais mwyn yn ein cyfarch. Bardd oedd yno, un o feirdd mwyaf gwylaidd Cymru. Hanna o'r un ardal a minnau, ardal y mae ei phlant yn cyfarch eu

gilydd lle bynnag y cyfarfyddent. Medrwn ys-grifennu cyfrol am y gwahanol ardaloedd a gwledydd y cyfarfyddodd plant Llanuwchllyn eu gilydd ynddynt, ac am ddulliau hynod rhai o'r cyfarfyddiadau hynny.

Yr oedd y gwynt yn codi, a phrysurasom o gwmmi diddan Barlwydon i weled rhyw chwarel. Cymerasom y ffordd sy'n arwain dros y mynydd i ddyffryn Conwy, ac wele grugiau anferth o ddarnau llechi,—y rwbel o chwarelau Oakeley,—o'n blaenau.\* Arweiniodd llwybr troellog ni i fyny hyd fron y bryn llechi, a chyn hir clywem swm peiriannau ac arfau. Yr oedd ein llwybr ni'n dirwyn hyd y fron serth, a phan oeddym ar y cylch olaf ond un wele ben,—nid un cyffredin,—yn ymddangos o'r lle gwastad uwchlaw, ac yn gofyn i ni a ewyllys-iem weled rhywbeth. Atebais nad oedd y byd cyn drymed na chai pawb â'i olwg weled. "O'r gore, ynte," meddai, "y fi ydi'r geid." Dring-asom i fyny ato, a dechreuodd ein hwylio o gwmpas, mewn dull difrifol a doeth iawn. Aeth a ni i adeilad eang, a danghôsodd y chwarelwyr wrthi'n hollti llechi, ac yn eu naddu wrth gyllell peiriant. Yr oedd pawb yn hollol ddis-taw, ond y peiriannau a'r geid. Ac mewn rhyw

---


\* Nid wyf yn adrodd dim ond a welais ac a glywais yn Ffestiniog y diwrnod hwnnw. Os mynni wybod hanes Ffestiniog a'i chwarelau, darllen lyfr manwl a dyddorol G. J. Williams,—"Hanes Plwyf Ffestiniog" (Hughes a'i Fab, Gwrecsam).

dôn ddistaw leddf y siaradai'r geid hefyd, fel pe buasai pob peth ddywedai yn ddirgelwch pwysig a mawr. Esboniodd i ni fel y mae'r chwarelwyr yn partneru,—rhai yn y graig, rhai yn hollti, a rhai yn naddu. Yr oedd golwg brydferth ar y rhes hir o chwarelwyr, gyda'u gwynebaw meddylgar glân, a phawb a gwên groesawgar wrth edrych arnom yn gwrando ar eiriau dewisol y geid. Wedi dod allan, gofynasom beth arall oedd i'w weld, a chawsom mai adeiladau tebyg i'r un y daethom o hono. Ond yr oedd arnom eisiau mynd dan y ddaear, i weld y creigwyr, a'r gweddill o'r un cant ar bymtheg sy'n gweithio yn y chwarel hon. Nid oedd caniatad i fynd, hyd yn nod i frenin. Deallasom wedyn y buasai 'n hawdd i ni weled y chwarel i gyd pe wedi gofyn yn briodol; ond ni chawsom gan yr hen arweinydd prudd-ddigrif ond hynny o wir a wnaï les i ni. Felly yr oedd yn rhaid i ni dreio chwarel arall.

Ar ein cyfer, dros y ffordd oedd i lawr ym mhell odditanom, gwelem Chwarel y Llechwedd yn drom ac yn ddistaw o'n blaenau. Cyn cychwyn yno, cawsom ymgom â'r geid wrth ymadael. Trodd ddau lygad dwys arnom, nes oedd y ddau'n cyfeirio'n syth i ryw un pwynt ym myw ein llygaid ninnau. Dywedodd fod ysbryd y chwarelwr yn un anibynnol iawn. Clywodd ffrwgwd rhwng goruchwyliwr a chwarelwr yn y fan lle safem. Dywedodd y goruchwyliwr, dyn caredig ond gwyllt, fod y chwarelwr wedi gwneyd trosedd, a fod yn rhaid iddo ofyn ei bardwn. "Tr-trosedd," ebe'r chwarelwr, "naddo; rhyw opiniwn oedd o genno fo; ofynne fo m-mo'i bardwn o b-byth." Yr oedd







Y CHVAREL ADEG STREIC.

llond y fan o chwarelwyr yn union, aeth y goruchwyliwr fel yr aethnen, ond daeth pob peth i'w le'n fuan iawn. "Ond," meddai, gan gyfeirio ei ddau lygad a'i fys at y chwarel ddistaw ar ein cyfer, "welodd Ffestiniog erioed beth fel hyn." Dywedodd ei hanes yn sir Fflint, mewn geiriau oedd yn codi darluniau erchyll o'm blaen, fel y dychrynasant oruchwyliwr i farwolaeth. "Ond," meddai, "d-dydi chwarelwyr ddim fel colliars, mae nhw'n fwy gwareiddiedig, yn fwy efengylaidd; ac mae'n well gennyn nhw ddiode na gwneyd dim o'i le." "Rhyw chwechyn" yn unig oedd yn ddisgwyl fel cydnabyddiaeth, ond "mae partis wedi estyn dwy gini i mi cyn hyn." Pan roddwyd y swydd o dderbyn dieithriaid iddo, dywedodd y goruchwyliwr, "Paid a gosod pris; ond, os byddan nhw'n shabi, t-tsiarja nhw swllt y pis."

Aethom i lawr hyd y llwybr troellog, gan feddwl am drem ddwys y gŵr pwysleisiol ar ben y lle gwastad, a chan ofni mai ymysg "y rhai shabi" y dosbarthai ni yn ei feddwl. Dringasom y llwybr i fyny ochr arall y cwm cul. Ond nid oedd swm peiriant na chun na morthwyl yn y Llechwedd. Gwelem olwynion yn sefyll, ac un olwyn fawr yn symud yn araf fel pe mewn cwsg. Yr oedd distawrwydd llethol dros y fan, fel pe buasai'r nos wedi gadael popeth ar ei hol hyd ganol dydd, ond ei lliw. Y mae gwaith anghyfannedd yn fwy anghyfannedd na dim. Y mae prydyddion byd wedi wylu uwch mieri lle y bu mawredd, ond daw beirdd dwyfolach i wylu uwch mieri fo lle y bu gweithio gonest.

Crwydrasom ymlaen at swyddfeydd y gwaith. Yr oedd distawrwydd llethol yno hefyd. Wedi cnocio, clywem swn troediad araf trwm. Daeth dyn byr i'r drws, a gadawodd i ni ofyn iddo a fedrem gael rhywun i'n harwain trwy'r chwarel. Edrychodd dros y llethrau gweigion, fel protest yn erbyn ein cwestiwn di-fudd, ond dywedodd fod croesaw i ni fynd i grwydro drwy'r chwarel ein hunain. Gyda ei fod wedi gorffen dweyd hyn, penderfynodd ddod gyda ni ei hun, gan nad oedd ganddo waith i'w wneyd. Gŵr byr, gweddol drwchus oedd; siaradai'n araf a phwyllog, mewn llais bas mwyn iawn. Tybiwn wrth wrando ar ei lais mai pregethwr ddylasai fod. Ni fedrem beidio son am y streic, ond yr oedd ef yn rhy ochelgar i ddangos ei ochr, nac i ddweyd dim ond hanes noeth. Dywedodd mai ar yr ail ar bymtheg o Fai y dechreuodd y streic; a'r achos, meddai, oedd "rhoi'r oil am byth" i rywun oedd heb gydweled â rhywun arall. Deallasom mai dull o ymadrodd am droi dyn ymaith oedd "rhoi'r oil" iddo, a syniad ein harweinydd am ystyr yr ymadrodd oedd mai gyrru dyn cyndyn i'r oil i ystwytho a feddylid. Heibio'r olwynion llonydd a'r gweithdy mawr gwag, daethom i fyny at un o'r lleoedd agored lle cyferfydd wagani llwythog o dyllau ymhob cyfeiriad. Yr oedd yr olwyn ddŵr yn mynd yn araf araf, ond yr oedd pob tryc wedi sefyll, yr oedd y cadwyni'n crogi'n ddi-ddedfnydd ar y graig uwchben, ac nid oedd un creigiwr i'w ddisgwyl allan o un o'r tyllau duon oedd yn arwain i mewn i'r ddaear. Cawsom esboniad bychan difyr ar y dull o weithio chwarel; er y buasai'n fwy dyddorol pe buasem yn cael

gweled y creigwyr wrth eu gorchwyl fry. Gwelsom y gwahanol haenau,—y garreg bach, y slont glai, y tew caled, y llygad bach, y llygad cefn, a'r bastard-tir. Gwelsom hefyd fel y deuai cerrig i fyny o bob dyfn i'r fan y safem arni.

Yr oedd y gwlaw yn dechreu disgyn gyda hyn, a gorfod inni droi'n ol i'r swyddfa. Wrth fynd i lawr gwelsom ddyn ieuanc unig, a thybiem fod golwg gynhyrfus arno, yn brasgamu ar draws y chwarel wag. Y goruchwyliwr oedd, Warren Roberts wrth ei enw. Nid oedd ganddo wybodaeth, ebe ef, pryd y doi'r streic i ben; dywedais wrtho y dylai ddiolch mai ym Meirion yr oedd yn oruchwyliwr, ac nid ym Morgannwg. Rhoddodd bob croesaw i ni weled y chwarel, ond yr oedd ei feddwl yn rhy gythryblus gyda phethau ereill i aros nemawr gyda ni. Wedi cyrraedd y swyddfa'n ol, deallais fy mod yn gydnabyddus iawn ag enw'r gŵr a'n harweiniodd,—efe yw golygydd yr *Ymwelydd*, ac y mae wedi bod yn chwilio i'r un cyfeiriad a minnau.

Wedi ymadael a'r pregethwr caredig, arweiniodd ei fab ni i fyny i ben y chwarel, er mwyn i ni groesi'r gefnyn fynydd at chwarel Foty a Bowydd. Wrth i ni godi i fyny, gwel- em adran ar ol adran o chwarel y Llechwedd fel chwareudy crwn, ac yr oedd niwl glâs yn gwneyd yr olygfa'n fawreddog iawn. Yr oedd nant wyllt yn rhedeg i lawr o'r mynydd, yn ewyn trochionnog, ond yr oedd y dwfr yn hollol loew. Nid oedd bosibl gweled dim ond y mynydd a'r niwl trwchus, a cherrig gleision ac ambell aber drwyddo. Pan feddyliais mor iach a hyfryd

yw'r lle yn yr haf, daeth y gwlaw fel pistyll-oedd arnom, ac yr oedd y niwl yn ddigon i'n gwlychu at y croen. Wrth i ni ddisgyn i lawr ni welem ond clogwyni anferth yn hylldremu drwy'r niwl, ond clywem swm peiriannau'n ochrain ac yn rhuo yn y dyfnder odditanom.

Yr oedd golwg druenus arnom. Yr oeddwn i wedi rhoi'm dillad goreu am danaf y bore hwnnw, yn erbyn cyngor. Pan welodd rybelwyr Bowydd fi'n dod o'r niwl i lawr atynt, tybiwn y meddyliant am iar ar wlaw. Gwaeddodd rhyw hogyn direidus arnom, gan droi ei dipyn Saesneg yn wawd,—“Feri ffein weddar.” Y mae'r hen ddyrn yn gryf yn y duwiola pan wawdir ef, ond ychydig o ddigllonedd gwrol sydd mewn llipryn o bererin a'r defnynnau gwlaw'n rhedeg i lawr rhwng ei grysgys a'i gefn. Cafodd y bachgen fwynhau ei dipyn gwawd mewn diogelwch, a disgynasom ninnau hyd y llwybr serth i gwm cul, at enau chwarel. Yr oedd cerbydau bychain yn dod allan o honi, a thoc daeth bachgen o rybelwr atom, i ofyn a allai ein gwasanaethu. Cawsom ef yn ddeallgar ac yn garedig iawn, ac yn arweinydd da. Ond er ei wyleiddied, dychmygem y gallasem ei glywed yntau'n canu,—

“Rhybelwr oedd fy nhaid,  
Rhybelwr oedd fy nhad;  
Rhybelwr ydwyf finnau,  
A'r goreu yn y wlad.”

Cyn i ni fynd i mewn, cawsom olwg ryfedd ar y chwarel. Yr oedd y gwlaw'n pistyllio o hyd,

ac ni welem gan y niwl glas-ddwfn ond creigiau a cherrig enfawr ar bob tu. Yr oedd yno un bachgen, a cheg enfawr, fel pe buasai ei ben yn fŵch tybaco, yn rhegi nes oedd y creigiau a'r niwl yn diaspedain. Cofiwn am y tyngwyr welodd Bardd Cwsg yn uffern, yn crogi gerfydd eu tafodau oddiwrth greigiau fel y rhai acw.

Rhoddodd ein harweinydd blanc pren sych yn y wagen fach haearn,—ond cofiwn mai nid y dillad oedd oreu yn y boreu oedd oreu erbyn hyn,—ac yna cychwynnodd y gyrrwr ceffylau a ni drwy'r tynel hir dyfrllyd, gan ein rhybuddio i ddal ein pennau i lawr, rhag eu taro yn erbyn talp o graig yn y tywyllwch. Daethom i'r chwarel agored, hynny ydyw, yr oeddym yn gweled y niwl o waelod y twll yr oeddym ynddo. Rhwng yr olwg i fyny ar y niwl a'r olwg ar y mŵg ddoi o'r tanau yn y mynedfeydd tan ddaearol, yr oeddym mewn lle dieithr iawn. Wrth durio odditan y graig yr oedd rhai colofnau wedi eu gadael, rhag i'r mynydd syrthio i lawr. Weithiau cyffelybwn y lle i eglwys gadeiriol ardderchog, a'r pileri duon heb orffen eu naddu. Ond yr oedd y fflaglau a'r gwaeddi'n gwneyd y lle'n anaearol iawn. Symudasom ymlaen at enau un o'r *inclines*, ac yr oedd y fflagflamau a'r mŵg ddoi o honi yn gwneyd i mi feddwl am eneu annwn. "Gwelais ddau ddyn yn cael eu lladd yn y fan acw," ebe creigiwr o Lanbryn-mair oedd yn sefyll gerllaw. Y mae aml ddamwain yn digwydd mewn dyfn fel hwn,—y graig yn tanio neu'r wagen yn rhedeg. Damwain mewn chwarel, ac Angeu yno,—

Mae anadl pawb yn ei fynwes yn crynnu.  
A phryder trwy wynder pob gwedd yn llefaru.

Crwydrasom dipyn dan y ddaear, a'r bachgen a'i ganwyll yn ein harwain; gwelwom ddyfn ar ol dyfn. Yr oedd cadwen ar draws y lleoedd peryclaf, ond clywais am rai cyfarwydd â'r chwarel yn syrthio dros ddyfn neu ddau. Ni welais y creigwyr oedd yn gweithio yn y gwaelod, ond gwelais y grisiau hir sydd yn arwain i lawr atynt, a'r mwg yn nofio ar wyneb yr agenau uwch eu pen.

Wrth gerdded i lawr o'r chwarel, daeth llawer o bethau i'm meddwl am y bobl welais yn ystod y dydd. Yn un peth, tarawyd fi gan foneddigeiddrwydd di-eithriad y chwarelwyr. Yr oeddynt yn rhy brysur i ddod atom i holi, ond rhoddent bob cynhorthwy i ni o'u bodd os gofynnem am dano. Sylwais eu bod yn garedig ac yn gymhwynasgar iawn gyda'u gilydd, a mynych gyngor gafodd y bachgen a'r ganwyll sut i wneyd â ni er mwyn i ni weld popeth. A phan oeddym yn dod allan o'r chwarel, gyrrodd un o'r chwarelwyr ni yr holl ffordd, er fod y dwfr at ei fferrau. Clywais bobl ddi-addysg a di-ddiwylliant dybient eu bod yn foneddwyr, gyda modrwyau efydd ar eu bysedd, yn condemnio gweithwyr y Llechwedd yn ddi-arbed. Ond yn y chwarelau y gwelais y gwir foneddwyr, a llawer haws fuasai gennyf ymddiried bywyd ac eiddo iddynt nac i lawer sy'n caru ymddangos fel hoffwyr cyfiawnder, a hawliau cysegredig eiddo.

Tybiwn hefyd, oddiar yr olwg arnynt, eu bod yn ddynion deallgar iawn fel dosbarth. Ni welais ol syrthni meddwdod ar un wyneb, na'r gwynebau nwydwyllt welais yn hyllidremu ac yn gwgu arnaf mewn aml fiatri fawr yn Lloegr ac

ar y Cyfandir. Gwn fod llawer o ganmol wedi bod ar chwarelwyr am eu meddwl, a dywied rhai eu bod fel dosbarth yn cael y ganmoliaeth a haeddir gan y rhai goreu o honynt yn unig. Yr wyf yn meddwl y geill chwarelwyr Ffestiniog, fel dosbarth, dderbyn y clod o fod ym mysg gweithwyr mwyaf deallus y byd.

Y mae bywyd moesol Ffestiniog, ar y cyfan, yn iach a phur. Ni adewir i fasnach ladd meddwl, y mae'r llenor a'r bardd yn sicr o gael gwrandawriad. Yn wir, hwyrach y telir rhyrhydyddig o sylw i'r celfau, yn enwedig daeareg. Diwinyddiaeth yw prif faes astudiaeth Ffestiniog eto, ac y mae'n amhosibl cael gwell diwylliant i'r meddwl na'r diwylliant geir trwy gymdeithasu â "brenhines y gwyddorau." Athroniaeth ar ei goreu ydyw, athroniaeth y ceir golwg ar y natur ddynol o bob gris ohoni.

Am arweinwyr y dylai gweddi Ffestiniog fod. Haearn a hoga haearn; a thrwy eu bod yn gweld cymaint ar eu gilydd, ac yn cael cymaint o fanteision i siarad, y mae dylanwad y chwarelwyr ar eu gilydd yn fawr. Pan symudant, symudant fel un gŵr. Gall arweinyddion doeth eu codi, yn feddyliol a moesol, y naill genhedlaeth ar ol y llall. Y mae'n ddiameu fod Ffestiniog wedi ei bendithio ag arweinwyr meddylgar, grasol, ac uchel eu nod.


Clywais droion fod dynion Ffestiniog yn well na'r merched. "Nid yw'r merched yn cael yr un cyfleusterau i ymgomio, ac i ddadleu cwestiynau, ag a ga eu gwŷr," ebe boneddiges wrthyf. Ac eto gwelais amryw gynhadleddau ar gerrig y drysau wrth basio trwy'r heolydd. Dywedwyd fod merched ieuainc yr ardal yn




priodi cyn dysgu coginio a chadw ty. "Gwneyd te ac agor *tinned salmon* yw holl gylch eu coginiaeth," ebe hen lanc sychlyd wrthyf. Ond, yn fuan iawn, daw'r ysgolion i wneyd y diffyg hwn i fyny, os yw'n bod.


Beth bynnag arall ddaw o Ffestiniog, daw rhai o athrawon ac athrawesau goreu Cymru. Gwyn fyd na ddeuai mwy ohonynt. Lle Cymreig effro fel hwn ddylai gyflenwi ein hysgolion ag athrawon.

Ac wrth gofio, adeg y streic oedd. Clywais feirniadu doethineb y chwarelwyr, ond ni chlywais ond un farn am eu calonnau. Sefyll dros eu gilydd y dywedai pawb eu bod, ac yr oedd cydymdeimlad pawb gyda hwy. Yr wyf yn sicr iawn o un peth,—y mae eu hymddygiad wedi bod yn foneddigaidd ac yn Gristionogol trwy'r amgylchiad cyfyng. Nid yn ofer yr adeiladwyd llu capelau Ffestiniog. Yr oedd pedwar cant a hanner, mwy neu lai, o ddynion ar y streic y diwrnod hwnnw er ys misoedd, ac yr oedd cydymdeimlad miloedd o'u cydweithwyr â hwy. Ac eto ni welais filwr na heddeidwad yn unlle drwy gydol y dydd. Gwelais apêl atynt oddiwrth lowr, mewn papur newydd Cymraeg, i adael eu hemynau, ac i godi eu calonnau trwy ddawnsio a gwamal ganu. Ond yr esboniad goreu ar waith yr Ysgol Sul a'r Seiat yw ymddygiad chwarelwyr Ffestiniog ar adeg streic ac ar bob nos Sadwrn. Nid ofer yw'r ymdrech a wnaed ac a wneir gydag addysg a chrefydd Cymru, tra y cynhyrchir dynion fel y rhai hyn.





STRYD FAWR Y BALA.



TY'N LLAN (*Queen's Hotel*), CERRIG Y DRUDION.

## II. Y PERTHI LLWYDION.

YR oedd yn ddiwrnod sych oer yn nechre Ebrill, a gwynt miniog yn crwydro dros y ddaear lle cysgai blodau'r dydd a'r brieill eto, er ei bod yn bryd i'r anemoni godi ei ben o gwsg hir y gaeaf. Yr oedd yr eira eto'n aros ar gopâu pell y mynyddoedd, a rhyw niwl drosto, yn holl ogoniant glas a gwyn diwedd gaeaf. Daeth awydd ataf i fynd i fyny i'r mynyddoedd ar grwydr, ac i droi o gwmpas rhai o gartrefi enwog Cymru. Cefais gyfaill. oedd yn berchen march cadarn cyflym a cherbyd uchel ysgafn, ac yn meddu llawer o wybodaeth am natur dyn ac anifail, i ddod gyda mi. Rhag i ni fentro i gymoedd rhy anghysbell, a throï'r cerbyd yn awr ac yn y man wrth gornelau er mwyn chwareu, anfonwyd merch ieuanc gyda ni. Cadwgan oedd enw'r gŵr, Enid oedd enw y ferch ieuanc, a Sanspareil oedd enw y march. Os buost, ddarlennydd, yn teithio gyda chwmni cyffredin, a march cyffredin yn dy

dynnu, hyd y ffordd hir uchel o'r Bala i Gerrig y Drudion, y mae'n debyg iti ofni na welet ddiwedd y ffordd honno byth. Ond yr oedd sylwadau Cadwgan ac Enid ar y natur ddynol mor newydd, ac yr oedd cyflymder Sanspareil gymaint yn fwy na chyflymder hen geffyl hirllewog oedd yn dringo'r rhiwiau draw ymhell o'i flaen, fel na feddyliais i unwaith fod y ffordd honno'n hir. Y mae'n wir fod Cwm Tir Mynach yn hir ac yn llwm ac yn oer; ac y mae y bobl yn gyffredin yno wedi bod yn rhy enwog i'r un o'honynt dynnu sylw y byd yn fwy na'r lleill. Er hynny, nid yw y lle heb ei ddyddordeb. Yr oedd mawredd yn y gweunydd hirion gwlybion, yn ymgolli mewn mynyddoedd eiraog o bob tu. Yr oedd yr enwau yn awgrymu hanes coll hefyd,—Gorseddau, Maes y Gadfa, a Hafod yr Esgob. Adroddai Cadwgan ddetholion o hanes yr amaethwyr oddiwrth ryw arwyddion welai ef. "Mae dyn yn byw yn y fan acw," meddai, "heb ddim min ar ei gyllell wair." Syrthiodd fy llygad ar y dâs wair; yr oedd yn debycach i bigyn bryn nag i ddâs a'i fagwrydd wedi eu torri yn lân a thaculus. Hawdd oedd deall faint o fin oedd ar y gyllell wair. A gwn rai gwirioneddau cyffredinol am un sydd heb fin ar ei gyllell wair, ei bladur, neu ei rasel. Clywais hefyd ddarlenn cymeriad llawer un y diwrnod hwnnw oddiwrth ymddanghosiad ei dŷ, ei dda byw, a'i wrychoedd, a'i gloddiau. Tan son am y natur ddynol, cyrhaeddasom fan uchaf ein ffordd. Tybiwn nas gallai unlle edrych yn oerach a mwy anial na Llechwedd Figin,—hyd yn oed Hafod Nwydog yr ochr arall i'r mynydd. Yr oedd y

ffordd dros fil o droedfeddi uwchlaw lefel y môr, a'r lluwchfeydd yn dod i'w hymyl; yr oedd Llechwedd Figin ar fron serth tua dau gant a hanner o droedfeddi'n uwch wedyn. Yn y wlad agored ddigoed hon, deuai gwynt caled oddiar y bronnau o eira rhewedig fry i'n cyfarfod. A fedr rhyw syniad plaserus ddod i feddwl dyn pan fydd arno anwyd o'i draed?

Ond beth pe gwelech y llecyn hwn yn yr haf, —pan fo pen melynwyn brenhines y weirglodd yn crymu uwch dwfr grisialaidd y nant sy'n dilyn y ffordd, pan fo gwartheg enwog am fel-uder eu llefrith yn ymfwynhau yn yr awelon cynnes ar y llethrau fry, pan rydd y grug berarogl hyfryd gwan i'r awel, pan geir yr unigedd tawel hwnnw sy'n well darlun i mi o'r nefoedd na dim arall y gallaf feddwl am dano? A beth pe byddech yma ar hafnos dawel ganol Awst? Y mae'r ardal yn ddistaw bob amser, ond a'n ddistawach at y nos, distawrwydd rydd lais gwylaidd i aberoedd y mynydd, ac i adlais yr afon o'r dyffryn draw, sy'n cyhoeddi

“Fod eto ar y bryniau lef  
 Dragwyddol o addoliad. Obry clyw  
 Yr afon hithau ar ei milwedd daith,  
 Yn llanw dyffryn ar ol dyffryn ag  
 Angylaidd for o addoliadol swm.”

Ac onid yw enwau fel Nant yr Ewig a Ffridd y Gwair yn dwyn adgofion, hyd yn oed ar ddechreu gwanwyn llwm, am yr arogl meillion a'r gwair cynhauafus fydd yma ymhen rhyw ddeufis neu dri?

Ond y mae carnau Sanspareil yn taro tân o'r cerrig wrth i ni gyflymu i lawr at Gapel y Gelli-

oedd, a rhedeg yn chwyrn gydag ochr y mynydd uwchben Nant yr Hengwm a gwaelod Llangwm. Wrth Hendre Garthmeilio try y ffordd yn sydyn i'r gogledd, a daw rhewynt i'n cyfarfod wna i mi wasgu dannedd yn dynn rhag iddynt glecian ar eu gilydd, a gwrando ar Gadwgan yn esbonio i Enid paham y mae coed *larch* yn dihoeni yn yr uchder yma, a phaham na phery clawdd weiar byth.

I lawr a ni yn orwylt at Bont Moelfre, a cheisiwn ddarbwylllo fy hun fod arnaf lai o anwyd wedi disgyn dros ddau can troedfedd i ffordd enwog Caergybi. Y mae Cerrig y Drudion o'n blaenau, fel dinas ar fryn; ac ar fyrder yr oeddym mewn ystafell glyd yn y Saracen's Head o flaen tanllwyth o dân, a'n hanwyd a'n newyn yn hyfryd ddiplannu.

Wedi cynhesu a dadluddedu yn y cartref fforddolion croesawus hwn, a gwrando ar y porthmyn yn siarad Cymraeg campus yr ardal-oedd yma, cychwynasom tua chartrefi Edward Morris a Jac Glan y Gors,—y naill yn fardd melusaf yr unfed ganrif ar bymtheg, a'r llall yn gynrychiolydd Cymreig ysbryd chwyldroadol y ddeunawfed ganrif. Dringasom i'r pentref, ac ar y ffordd troisom i ymweled â Hugh Hughes. Hen athraw, fel y finnau, yw ef; ac y mae'n cael hamdden yr hiraethais innau lawer am dano, i gasglu barddoniaeth Gymreig. Y mae ei fryd ar gasglu a chyhoeddi holl waith Edward Morris, y bardd mwynber o'r Perthi Llwydion. Danghosodd imi y gyfrol olaf oedd wedi ysgrifennu; ac wrth sylwi ar dlynsni digryn y llawysgrif, a gwrando ar ysgwrs lawen yr hen lenor sionc, prin y gallwn gredu ei fod

wedi cefnu ar ei bedwar ugain oed. Ond, o ran hynny, yn y wlad iach agored hon, gallwn feddwl mai hawdd yw byw'n hen a siarad Cymraeg glân gloew. Am ennyd y meddyliais hynny; daeth i'm cof wyneb mwyn genethig brydferth fu'n byw ar y fron draw, adwaenwn gynt, a hunodd ymhell cyn i wrid ieuenctyd adael ei grudd.

Pan ffarweliasom â Mr. Hughes yr oedd yr haul yn gwenu ac yn cynhesu'r awel. Safasom ennyd wedi cyrraedd canol y pentref, rhwng yr eglwys a gwesty to gwellt. Pentref bychan ydyw, ar fryncyn noethlwm. Hanner can mlynedd yn ol yr oedd rhai'n cosio crug o gerrig ger yr eglwys,—beddau hen ddrudion neu wroniaid,—ac oddiwrthynt hwy y cafodd y pentref, a rhyw ugain mil o aceri o rosdir a mynydd o'i amgylch, eu henw. Y mae Cerrig y Drudion yn ganolbwynt ffyrdd lawer. A un i'r de ddwyrain gyda'r afon Ceirw i Gorwen, ac oddiyno i Loegr; un arall i'r dwyrain, drosodd i ddyffryn Alwen a Llanfihangel Glyn Myfyr, ac oddiyno i Ddyffryn Clwyd; a'r ffordd y daethom ni hyd-ddi i'r de i Feirion. A ffordd arall i gyfeiriad y de, heibio i Dy'n Rhyd i Gwmpenaner. Rhed ffordd Gorwen,—ffordd fawr Caergybi,—i'r gorllewin tua Betws y Coed. Rhed ffordd arall i'r gogledd. Yn wir buasai gwe pryf copyn yn eithaf map o Gerrig y Drudion a'i ffyrdd. Noethlwm yw'r wlad o amgylch y pentref, ond tra mawreddog. Mae mynyddoedd pell eiraog yn ymyl gwyn i wlad eang o gaeau llwydgoch, ac y mae'r ffordd fawr union lydan yn deffro adgofion am amser yr oedd yn brif dramwyfa rhwng Prydain a'r Iwerddon.



Y ffordd i'r gogledd oedd ein ffordd ni. Os gofynnwn i ble yr oedd yn arwain, dywedid wrthyf res o enwau nad oeddwn wedi clywed am danynt erioed o'r blaen, yn amaethdai a mynyddoedd. Yr oedd un eithriad. Clywswn enw'r Hafod Lom mewn pennill glywais hen sant, nad yw yn awr ymhlith y byw, yn ganu i ysgafnhau ei feddwl pan fyddai'r byd yn gwasgu arno,—

“ Mi af oddiyma i'r Hafod Lom,  
 Er ei bod hi'n drom o siwrne;  
 Mi gaf yno ganu cainc,  
 Ar ymyl mainc y simdde;  
 Ac ond odid dyna'r fan  
 Y bydda'i dan y bore.”

Cyn mynd nemawr hyd y ffordd, troisom ar ein chwith, a dechreuasom gerdded yr hen ffordd tua'r gorllewin. Hon oedd ffordd y wlad cyn gwneyd ffordd fawr Caergybi yn is i lawr. Er cymaint y mae'n droelli gyda godreu'r mynydd, y mae'n amlwg oddiwrth y murddynod sydd ar ei hymyl mai hyd-ddi hi unwaith y cerddai masnach yr ardaloedd. Ymysg yr adfeilion tai tyf ambell griafolen neu fedwen, megis pe'n ceisio dynwared harddwch plant fegid yno gynt: a saif ambell fur talcen, wedi herio gwyntoedd gaeafau lawer, yn glod i ryw saer maen gwledig sydd ers blynyddau bellach yn y fynwent draw.


Hen ffordd ddyddorol yw hon, hyd yn oed i deithiwr na wŷr fod Edward Morris wedi ei eni un ochr iddi, a Jac Glan y Gors yr ochr arall. Ar y dde yr oedd caeau newydd eu haredig, o liw coch cynnes, yn graddol godi i fyn-


yddoedd grugog. Ar y chwith yr oedd rhes hir o fynyddoedd gleision,—amlinellau hirion esmwyth, gydag ambell luwchfa o eira yn torri ar brydferthwch unlliw y glas tyner. Rhed y drum fynyddig rhwng Meirion a sir Ddinbych, gan ymgodi i uchder Carnedd Filiast, 2,194 o droedfeddi, teilwng chwaer i'r Aran a'r Arenig. Wrth edrych ar linell donnog y copâu glas a gwyrdd, cofiwn mai eithaf naturiol oedd i Fatthew Arnold dybio fod rhywfaint o'r dwyfol i'w weled mewn rhes o fynyddoedd.

Gofynnem y ffordd i bob un o'r bobl radlon garedig a gyfarfyddem, er mwyn eu clywed yn siarad Cymraeg,—yr wyf yn credu fod yma y Cymraeg puraf a llawnaf yng Nghymru. Rhoddai Cadwgan wybodaeth gyffredinol inni, wrth edrych ar y ffermdai a'r caeau odditanom, megis,—“Mae'r gwartheg duon gore yn y byd yng Ngherrig y Drudion yma.” Yr oeddym yn graddol nesu, yn ol yr ysgwrs a gaem â phob fforddolyn, at y Perthi Llwydion. Cofiais nad oedd gennyf gamera gyda mi, ac nid wyf yn fedrus gyda'm pensel. Felly ni chawn ddarluniau i fyned adre gyda mi o gartref pell Edward Morris. Ond, os gorfod i mi wneyd heb ddarluniau, osgoais lawer o drafferth. Lawer tro, pan yn cario fy nghamera gyda mi, dilynid fi gan dorf o blant. Credent mai *conjuror* oeddwn, ac y rhoddwn y clud i lawr pan gawn lecyn cyfleus ar fin y ffordd, ac y diosgwn fy nghob, ac y tynnwn wydrau allan o'r boc, y gorweddwn ar fy nghefn i ddangos fy medr i ddal gwydrau ar fy nhrwyn, ac y gwnawn lawer o ystumiau digrif ereill. Nid peth hoff gennyf yw peri siom i blentyn; ond y mae amryw bethau nas gallaf eu gwneyd.

Dyma'r drofa ar y dde, sydd i'n harwain at y Perthi Llwydion. Ar y drofa cyfarfyddir ni gan borthmon glandeg graenus, newydd brynno ceffyl yn y Ferthi Llwydion. Dychmygwn mai rhywbeth tebyg oedd Edward Morris pan safai ar y groesffordd hon, i wyllo'r gyroedd, ddwy ganrif yn ol. Rhed ffordd i lawr i bant, ac yn nythu'n ddigon clyd yn y pant wele'r Perthi Llwydion. Fel y mae yn awr, ty gwyn twt ydyw, gyda phorth cymhesur o'i ffaen. Y mae ei wyneb i'r de-orllewin, edrych felly i gyfeiriad y gefnen y rhed y ddwy ffordd drosti,—y newydd yn rhedeg yn union fel saeth, a'r hen yn troelli ac yn gwyro fel sarff wedi ei hysigo. Saif y ty mewn hafn werdd, yn agored i'r haul, mewn cysgod rhag gwyntoedd y gogledd a'r dwyrain. Y mae llwyn o helyg tal glas yn sefyll fel rhes o wylwyr o ffaen y ty. Feallai fod mwy o bertni yma unwaith; nid yw enw coed yn awr yn dangos fod yno goeden yn aros, nid oes un onnen yn aros ger "Llwyn On" draw. Oddiwrth y talcen pellaf oddiwrthym graddol godai llethrau gleision i fyny at beth elwid wrthym yn Graig Erchedd; ond ni welsom ddim yn erch yn yr olygfa, llyfn ac esmwyth oedd amlinellau'r olygfa, fel odlau Edward Morris.

O'm rhan fy hun, gwell gennyf wrando ar Edward Morris yn canu yn y mesurau rhyddion nag yn y mesurau caethion. Yr adeg honno, sef yn yr ail ganrif ar bymtheg, yr oedd hen Awen Cymru'n distewi, a'r newydd heb ddeffro. Yr oedd Tudur Aled wedi tewi ers can mlynedd, yr oedd can mlynedd i ddod cyn y clywai Cymru Williams Pant y Celyn. Yr oedd y boneddigion





PENTREF CERRIG Y DRUDION.

yn troi eu cefnau ar lenyddiaeth Cymru, yr oedd y werin heb ddysgu ei charu eto. Cwyna Edward Morris wrth yr Awen Cymreig nad oes neb a wrendy arni hi mwy, ond

“ O'r Saisneg deg y digwydd  
Purach wellhad, parch a llwydd.”

Nid oes fri ar waith ein beirdd, ni roddir pris ar lyfrau Cymru mwy, a dyma dynged ysgriflyfrau Cymru,—

“ Pob barcutan llyfran llwyd,  
Heb lai acw a bliciwyd;  
Colli'r plu, cael yn llaw'r plant,  
A rhai eger a'i rhwygant;  
Pob dalen gwelen g'wilydd,  
Yn tanio tybaco bydd.”

Ac ychydig obaith oedd am lyfrau newyddion, oherwydd

“ Mae iaith gain Prydain heb bris,  
Mae'n ddi-obrwy, mae'n ddibris;  
Darfu ar feth, dirfawr fodd,  
Ei 'mgleddiaid a 'm'gwilyddiodd;  
Y Gymraeg a gam rwygir,  
C'wilydd ar gywydd yw'r gwir;  
Darfu ei braint a'i faint fu,  
Ai mewn llwch y mae'n llechu?”

Cysura'r Awen ef trwy son am ychydig gartrefi Cymreig oedd eto'n gartrefi i'r hen iaith, ac yn nawddleoedd i'w llenyddiaeth,—y Gloddaeth, y Berth Ddu, Bodesgellan, a'u tebyg. Yn wir, hyd heddyw, y mae'r Mostyniaid a'r Wynniaid

wedi rhoddi gwerth ar waith Edward Morris a'i gydoeswyr.

Ni thrydd Edward Morris at y werin; ni fydd addef fod yr amser wedi dod y byddai raid cyweirio tannau telyn Cymru ar eu cyfer hwy. Ac eto yr oedd hyn yn cael ei wneyd. Er fod llawer o geinder hen gyfnod y cynganeddion yng nghaniadau serch Huw Morus o Bont y Meibion, i'r werin y canai'n bennaf. Canodd ar fesurau rhyddion, ac arhosai'r cerddi ar dafod gwlad, a swyn eu miwsig yn barhaus yn ei chlust. Ac i raddau, dilynodd Edward Morris ef yn hyn o beth. Ond, er ei fod yn wr o deimladau crefyddol dwysion, ni fentrodd ef yr un o'r llwybrau newyddion. Gwrthwynebai feddwod a gloddest, mae'n wir. Pan oedd Lloegr feddwaf ar y Nadolig canodd,—

“ Canwn gan dannau ysbrydol ganiadau,  
Ni apwyntiwyd mo'r gwyliau i ganlyn heb  
lwydd  
Lythineb a meddwod; ond am ein gollyngdod  
Clodforwn ei Dduwdod yn ddedwydd.”

Eto yr oedd yr hen arferion Nadolig i aros fel o'r blaen, er gwaethaf Puritan a Chrynwyr. Ebe'r canwyr carolau dan bared,—

“ Ninnau sydd yn uno sain,  
Fel carreg lefain lafar,  
Wrth eich llys yn gwmni llon,  
Heb ddim argoelion galar;  
Nid awn i ganu fyth dan fur  
Yr un o'r Crynwyr crinion  
Sydd yn brefeud hyd ein bro,  
Gan rodio i dwyllo deillion.

" Nid awn ni chwaith at gybydd tynn,  
 Yr hwn yw gelyn gwyliau,  
 Fe fydd o'i gut yn hysio'i gŵn,  
 Rhag tyner swm y tannau;  
 Hyd at haelion fel chwychwi,  
 'E wyllysiem ni gyrhaeddyd,  
 Ar ol ein cân, heb geisio cêl,  
 A ddwedo'n uchel,—' Iechyd.' "

Yr oedd Edward Morris yn cydoesi a'r Hen Ficer, a John Bunyan, a John Milton. Cyfansoddwyd "Canwyll y Cymry," "Taith y Pererin," a "Choll Gwynfa" yn ei amser ef, tra y tramwyai rhwng Cerrig y Drudion ag Essex, man ei eni a man ei fedd. Ceir aml darawiad o'u Puritaniaeth hwy yn ei ganeuon. Y mae'n troi'n bregethwr hyawdl yn ei "Gywydd Meddwod"; dywed, wrth ddarlunio wyneb y meddwyn, am "yfed iechyd da,"—

" Dan dy drwyn gwenwyn i gyd  
 Yfi, achos afiechyd;  
 Trwyn perlog mawr, gwerthfawr gŷn,  
 Mor euraid a marworyn;  
 Tanbaid yw'ch llygaid, ych llôg,  
 Gloew gochion, ac ael guchiog;  
 Delw'r Tad, dileuwyd hi,  
 Gwarth wyneb, a gwrthuni;  
 Aflendid newid yn ail,  
 Dan yfed, i anifail."

Ond, fynychaf, darlunia dlysnï'r byd hwn.  
 Gallwn dybio iddo roddi llawer o amser i wylio  
 rhodiad a bywyd y paun. Ail gyfyd hen ddarluniau,—



"Noblau cost yn ei blu cain,  
Planedau 'mhob blaen adain."

Ond rhydd ddarlun llawer mwy newydd,—

"Lliw perffeth, a lliw porffor,  
Lliw tân a mell, lliw tonn môr."

Darlunia'r march du carlamus, a'r tarw—  
"crug ym min craig y mynydd,"—yn berffaith;  
oherwydd gwyddai am danynt hwy, a'u holl  
nodweddion, yn dda. Ond ei ganeuon rhydd  
melodaidd, gydag ambell darawiad cyfrin yn-  
ddynt, sy'n gwneyd i feddylwyr yr oes hon ei  
hoffi.

Edrychasom dro ar gartref tawel y porth-  
mon llenyddol, tra'r cornchwiglod yn ehedeg  
yn y gwynt oedd yn codi uwch ein pennau  
erbyn hyn. Prysurasom ymaith, gan dorri ar  
draws cloddiau a chaeau,—Enid a'r cwbl,—o'r  
hen ffordd i gyfeiriad y ffordd newydd. Toc  
daethom i le gwastad fu unwaith yn gors, ac yr  
oedd afonig fechan yn crwydro trwyddo, fel  
pe'n hwyrfrydig i'w adael ac yn awyddus am ei  
wneyd yn gors fel cynt. Yr oedd cefn ty atom,  
troisom am ei dalcen, a chawsom ein hunain  
mewn buarth a beudai o'i gwmpas. Curasom  
wrth ddrws isel y ty, gan syllu ar lun carw, a  
dwy lythyren, a'r dyddiad 1703 uwch ei ben.  
Daeth gwraig radlon goesawus i'r drws.

"Beth yw enw'r lle hwn?"

"Glan y Gors."

Ie, dyma gartref un o feibion mwyaf  
athrylithgar Cymru, ond oedd yn rhy bell o  
flaen ei oes i gael ei ddeall. Nid wyf yn sicr a  
ddeallid ef hyd yn oed yn awr, pe ceisiai

rhywun alw sylw ato. Fel y cauodd Dafydd Ionawr ei ddrws yn ei wyneb, felly y cauodd Cymru ei drws rhagddo hyd yn hyn. Swynwyd ef, fel y swynwyd Fox a Wordsworth ac ereill, gan amcanion y Chwyldroad Ffrengig,—rhyddid, cydraddoldeb, brawdgarwch. Darllenodd hanes yn ddyfal, dadblygodd y ddawn oedd ynddo at watwareg,—ac ysgrifennodd y *Seren tan Gwmwl*. Ond, dan ei holl watwar a dirmygu, y mae ystor o gydymdeimlad â'r gorthrymedig, a difrifoldeb y gwir wleidyddwr.

Y mae'r ty hwn, yn ol pob tebyg, yn union fel yr oedd pan ofnai Jac y gors. Ar y chwith o'r drws y mae grisiau trymion yn arwain i'r lloftydd, ar y dde y mae'r gegin. Ystafell fawr yw hon, ar draws y ty, a ffenestri ynddi, wyneb a chefn. Uwchben y simdde hen ffasiwn y mae dau gleddyf allasant fod wedi gweled y Rhyfel Mawr; arhosant yn y ty trwy bob newid tenant. Gŵr y cleddyf oedd y gŵr a fagwyd yma; a hawdd y gallasai gofio, wrth ddal cleddyfau Cyfiawnder a Chydraddoldeb, am hen gleddyfau ei gartref.

Y mae Glan y Gors a'r Perthi Llwydion mor agos i'w gilydd fel y deuant i'r un darlun.\* Ganwyd Edward Morris a John Jones ar adegau tebyg,—adegaau chwyldroad a rhyfel. Yr oedd y ddau'n borthmyn ac yn wladgarwyr, crwydr-odd y ddau i Loegr, mae'r ddau'n huno ymhell oddiyma. Hoffodd y ddau Gymru â hoffder

---

\* Gweler gwyneb-ddarlun GWAITH EDWARD MORRIS. (R. E. Jones, Conwy).

angerddol; canodd y naill fawl yr Awen Gymreig, rhoddodd y llall warth bythol ar Ddic Sion Dafydd. Ac eto yr oedd y ddau yn anhebyg iawn i'w gilydd. Nid ymserchodd Edward Morris ddim yn chwyldroad ei ddyddiau ef. Ni chanmolodd Cromwell, llawenhaodd pan adferwyd Siarl yr Ail, canmolodd y Saith Esgob, a'i weddi oedd,—

“Ac nato Duw cyfion i'm tafod na'm calon  
Wrthwynebu mo'r union wirionedd.”

Pur wahanol fu croesaw Glan y Gors i'r Chwyldroad arall, gan mlynedd wedyn. Yn y Chwyldroad Ffrengig gwelodd ef wawr cyfnod rhyddid dyn. Condemniodd frenin ac uchelwr yn ddiarbed; ffeiddiodd y gwasaid bradwrus. Galwodd sylw at gam gwerin Cymru. “Gwell gennyf,” efe a gyhoeddodd, pan mewn ofn carchar, “farw yn ddyn rhydd na chael yr anglod o fyw'n ddistaw yn gaethwas dan rwymau gorthrymder.”†

Mewn ychydig funudau croesasom o'r ty i ffordd Gaergybi. Yr oeddym yno ennyd o flaen y cerbyd oedd i'n cyfarfod, a chawsom hamdden i edrych ymlaen ac yn ol. O'n blaenau rhedai ffordd Gaergybi am ychydig bellder i fyny rhiw, gan golli o'r golwg ar ei ben. Yn union wedyn ceir uchder eithaf ffordd Gaergybi yn ei holl hyd, sef 908 troedfedd, ar gyffin

---

† Cyhoeddir cyfrol o WAITH GLAN Y GORS gan R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy, am 1/6. Casglwyd a golygwyd y gwaith gan Garneddog.

rhediadau Dyfrdwy a Chonwy. Yn ol rhed-  
ai'r ffordd fel saeth i lawr i'r Cerrig. Codai a  
gostyngai,—weithiau diflannai y cerbyd oedd  
yn dyfod draw yn ei dyblygion,—ond i'r llygad  
nid oedd ond llinell wen unionsyth. Ar y dde,  
wrth edrych i'r Cerrig, y mae Clust y Blaidd  
a'r llethrau sy'n gwahanu afon Llaethog oâdi-  
wrth afon Ceirw. Ar y chwith y mae gwas-  
tadedd fu unwaith yn gorsiog, a da i'r hwn  
hoffai gerdded yn droedsych fod yr hen ffordd  
i fyny ar ochr y bryn. Ar y gwastadedd hwn  
saif Glan y Gors, a chefnau'r adeiladau i'r  
ffordd, ac yn cuddio wyneb y ty ond ei gorn  
simdde unig. Ychydig yn uwch i fyny, ac yn  
nes at y Cerrig, gwelir toau gleision y Perthi  
Llwydion. Gwlad o drumau esmwyth ydyw'r  
wlad, o amlinellau meddal hyfryd i'r llygad.  
Ehangder o rosydd a mynydd-dir ydyw, wedi  
ei thrin a'i gwrteithio yn dda. Er mai gwag,  
o'i chymharu a'r peth fu, yw y ffordd ar-  
dderchog sy'n rhedeg trwy'r ardal, y mae  
gwedd lwyddiannus yn aros ar y wlad.

Ond dyma ni oll yn gysurus yn y cerbyd.  
Y mae adgof am chwerthiniad iach yn dod i'm  
meddwl. O, 'rwyf yn cofio. Lawer blwyddyn  
yn ol yr wyf yn cofio myned heibio Glan y Gors  
mewn cerbyd gyda Dr. Edwards y Bala, ac yr  
wyf yn cofio chwerthiniad iach yr hen dduwin-  
ydd wrth adrodd y gerdd lle mae Jac yn dweyd  
hanes y person meddw yn sir Aberteifi roddwyd  
ar ei farch a'i ben at y gynffon,—

“O gwelwch y wyrth wnaeth yr Arglwydd â  
myfi,  
Fy ngheffyl i'n fyw a'i ben wedi dorri.”

Y mae'r gwynt wedi troi i'r de, eto'n oer, ac y mae clog o wlaw llwydwyn yn dechreu gorchuddio'r mynyddoedd draw. Trwy'r niwl cawn olwg ar Blas Iolyn, cartref Tomos Prys, a chip-olwg ar y Giler, cartref Robert Price, prif farwn y trysorlys dan William III.

Disgynnwn yn raddol i ardal goediog a rhamantus Pentre Foelas. Y mae pobl y wlad yma yn lluoedd mewn cynhebrwng, ac y mae tinc brudd y gloch yn dyhidlo galar dros y fro. Ac yn fawreddog iawn yr ymgyfyd, mewn bas a thenor, hen eiriau cysegrdig,—

“Ar lan Iorddonen ddofn  
'Rwy'n oedi'n nychlyd.”

Y mae cartrefi ereill o'n blaenau,—cartref awdwr yr emyn y mae ei swm eto yn ein clustiau, cartref cyfieithydd y Beibl, cartref tywysog pregethwyr Cymru. Ond y mae'r nos a drycin yn dod. Trown yn ol, a rhedwn yn gyflym i'r Cerrig, a'r dymhestl i'n cefnau. Wedi cwpanaid o de ac ymdwymno'n gysurus, dringasom drachefn hyd ffordd y Bala, rhedodd Sanspareil yn chwim trwy'r man-wlaw oer hyd y ffordd uchel, a rhedodd o'i fodd i lawr tua chartref. Gadawsom y mynyddoedd a'r ddrycin o'n hol, a chawsom daith gysurus ar y gwastad gyda glannau Llyn Tegid, oedd yn gorwedd yn dawel dan oleu gwan y lloer.



Y GARN.

### III. O GYLCH CARN FADRYN.

**D**AU beth a wyddwn yn sicr am Leyn,—fod Pwllheli 'n agos iawn i'w derfyn, a fod Carn Fadryn yn agos iawn i'w ganol. Yr oeddwn yn ameu, at hyn, mai Pwllheli oedd y lle pwysicaf ynddo, ac mai Carn Fadryn oedd ei brif fynydd. Os wyf yn methu, bydded y bai ar yr ysgolfeistri a ddysgodd imi adrodd penrhynnau'r Alban a threfi canolbarth Asia, heb son gair erioed am Bwllheli na'r Eifl na Lleyrn na Charn Fadryn. Clywais ryw ledfegyn yn canu am fel yr aeth ei Wen i ffair Pwllheli, a breuddwydiaswn ers blynyddoedd fy mod yn nofio ymysg penwaig y "Pwll."

Ond, beth bynnag fu'm hanwybodaeth, daethum i wybod cymaint am Leyn ag a wn am randiroedd ereill yng Nghymru. Yr oeddwn yn digwydd aros ym Mhwllheli yn nyddiau mwyn dechreu mis Medi, pan ddaeth cyfaill calon-gynnes i ofyn i mi a hoffwn ddod am dro o amgylch Carn Fadryn. Gan fod hynny'n meddwl tro trwy ganol rhai o ardaloedd enwocaf Lleyrn, yr oedd fy mwyniant wrth feddwl am y fath dro yn fawr.

Cefais olwg ar y traeth cyn cychwyn, ac ar Garreg yr Imbill, ac ar brydferthwch y tonnau wrth dorri'n dawel ar y traeth neu'n frigwyn ar y graig. Os mai am benweig y meddyliwn pan yn blentyn, fel "biff Nefyn" neu "betris Pwllheli," gwn yn awr fod y penhwygyn y pysgodyn tlysaf sy'n nosio dyfroedd y môr, a'i fod yn byw ar finion tlysaf moroedd Cymru.

Tynnai ceffyl porthiannus ni ar garlam hyfryd o Bwllheli tua chanol Lleyn. Daethom cyn hir at y fan lle y gedy ffyrdd Aberdaron a Nefyn eu gilydd. Cyn hir iawn wedyn troisom oddiar ffordd Nefyn, i redeg o gwmpas y Garn, welem yn fawreddog yn y pellter, hyd ffyrdd troiog Lleyn. Rhedasom yn gyflym dros Bont y Rhyd Hir, a dechreuasom ddringo rhiw gweddol serth. Yr oedd cloddiau uchel o'n deutu, wedi eu gorchuddio â chwyls yr eithin, mieri, a drain. Ar lethrau'r mynyddoedd yr oedd rhedyn, gyda llain o rug,—a'i gochder prydfferth fel pe'n fyw neu'n disgleirio,—yma ac acw yn ei ganol.

Daethom i ben bwlch bychan, a gwelem odditanom hafn o wlad gaead,—y mae llawer ardal debyg iddi yn Lleyn. Dyma ardal Rhydyclafdy. Gwlad wastad ydyw, a chylch toredig o fynyddoedd o'i chwmpas. Y mae'n ddarlun o dawelwch wedi ei gau i mewn gan fryniau, heb neb yn meddwl am ystormydd y môr a berw'r trefi sydd y tu hwnt. Y mae capel Rhydyclafdy ar fryn bychan uwchlaw'r pentre. O'i flaen y mae carreg a hanes iddi wedi ei chludo yno i'w chadw gan fardd sy'n gwneyd daioni gerllaw. Y mae hanes y garreg wedi ei ysgrifennu odditani,—

ODDIAR Y GARREG HON  
 GERLLAW YR EGLWYS HON  
 Y TRADDODWYD Y BREGETH  
 GYNTAF YN LLEYN GAN  
 HOWEL HARRIS,  
 AR EI YMWELIAD CYNTAF A'R WLAD  
 ODDEUTU 2 O'R GLOCH DDYDD LLUN  
 CHWEFROR 2FED 1741.  
 EI DESTYN YDOEDD  
 "DELED DY DEYRNAS."

Ar yr ochr arall y mae englyn,—

Uwch anghof, mel adgofion—a hiraeth  
 Am Harris gwyd weithion;  
 Wele, cof-bwlpud hylon  
 Geiriau gras yw'r garreg hon.

1893.

BEREN.

Can diolch i'r bardd roddodd y garreg hon yma.  
 Cwyd hiraeth am Harris ar rai na wyddant ond  
 am ei enw a'i waith. Pregethau tanlyd Howel  
 Harris, dioddefiadau Morgan y Gogrwr,  
 athrylith a ffyddlondeb llu o ddilynwyr iddynt,  
 —y gwyr wnaeth wyr Lleyrn yn foisol ac yn  
 ddarllengar,—cychwynna hanes Lleyrn y dydd-  
 iau hyn yn naturiol oddiwrth y garreg yma.

Aethom i fyny yr ochr arall i'r dyffryn  
 bychan; ar y ffon gwelsom blasdy bychan del  
 Gallt y Beren. Cawsom Beren gyda'i weddoedd  
 yng nghanol sybinau o yd euraidd addfed, a  
 chwasm ef yn llawn o gynlluniau am ddyfodol  
 Lleyrn,—am ffyrdd haearn ac addysg ac eis-  
 teddfodau a phob peth. Dringasom i fyny'r  
 rhiw drachefn gan gymeryd amser i hel mafon



duon ac i geisio adnabod y mynyddoedd oedd draw o'n holau, mynyddoedd Eifionnydd a Meirion. Cyn hir daethom i ben y rhiw, a gwelsom y ffordd yn rhedeg o'n blaenau rhwng dau fynydd mawr, gyda mentyll o goed neu redyn am danynt, a chrib o garreg noeth. Ar y dde gwelem eglwys Llanfihangel Bachellaeth, yng nghanol ei mynwent, heb dai yn agos ati, yn sefyll fel corlan ar fin y mynydd. Ac o'n blaen ymgodai Carn Fadryn, fel brenhines ar-dderchog Lleyn. Troisom o'r hen ffordd sy'n cyfeirio at odrau'r Garn, a rhedasom i lawr yn chwynn i ddyffryn cul hyd ffordd dda. Edwards Nanhoron wnaeth y ffordd hon ar ei gost ei hun, ac y mae'r enwau roddodd ar y bont yn dangos mai yn amser rhyfel y Crimea y gwnaeth hi. Fel pe'n gwyllo'r ffordd i lawr obry, safai bryncyn o graig, fel hen filwr wedi ei droi'n garreg,—a thu hwnt iddo gwelem y dyffryn yn culhau ac yn dyfnhau.

"I ble ddyfnaf y mae'r glyn cysgodion yma'n mynd?" ebe fi.

"Wn i ddim," oedd yr ateb, "ond Genau Uffern y maent yn galw'r bau ar lan y môr i lawr acw."

I lawr i lawr yr aem i'r dyffryn cul,—coed ar un ochr a drain a grug yr ochr serth arall. Hyd bennau'r gwrychoedd yr oedd gwynwydd aroglus. Gwelsom dŷ ar ochr y ffordd, a dywedir hanes am dano glywais am le arall. Ceryddodd y gŵr ei wraig, ac yr oedd y cerydd yn rhy lym. Galwyd y gŵr o flaen y seiat, a dywedwyd wrtho fod cyhuddiad difrifol yn ei erbyn,—ei fod wedi curo ei wraig. Rhoddodd yntau daw ar ei gyhuddwyr trwy sicrhau'r frawdoliaeth na cheryddodd ef mohoni ond â'r

Gair. Yr oedd wedi rhoi Beibl bychan ysgwar mewn cwd rhyg, ac wedi wabio'r wraig â hwnnw. I lawr a ni yn chwyrn tua Nanhoron. Daethom at bont. Pont Rhyd y Dŵr y galwai'r bobl hi, ond sylwasom mai Inkerman oedd yr enw arni. Yn nes ymlaen y mae ffordd Balaklava. Yr oeddynt ar ganol gwneyd y ffordd ar yr adeg yr oedd aer Nanhoron yn ymladd yn y Crimea. Pan ddaeth y newydd ei fod wedi syrthio yn y frwydr o flaen Sebastopol, cerfiwyd enw Balaklava ar ffordd newydd ei dad, ac arhosodd meddyliau am y frwydr honno yn fyw yn nhrigolion Lley'n hyd y dydd heddyw. Cafodd y gŵr ieuanc hwnnw un o brif feirdd ei wlad i ganu am dano,—

Ymlusgodd y gelyn i ymyl ein ffos,  
Pan wyllem ein brodyr i huno;  
A'i ddrylliau borfflorent dywyllwch y nos,  
A tharan ar daran wnaï ruthro.

"Ymlaen!" medd ein Cadben,—"*ymlaen!*"  
oedd ei lef,  
Aem ninnau ar warthaf y gelyn;  
Ychydig feddyllem mai marw 'r oedd ef  
Pan oedd yn anadlu'r gorchymyn.

Wrth inni ddychwelyd canfyddem y lloer  
Trwy hollt yn y cwmwl yn sylwi;  
Gan ddangos ein Cadben, a'i fynwes yn oer,  
Mor oer â'r bathodyn oedd arni.

Golchasom ei ruddiau â dagrau diri',  
Ac ar ei weddillion syrthiasom;  
Ymgiliodd y wenlloer, ond aros wnaem ni  
Yn ymyl y gŵr a gollasom.

Tra gwllith ar y ddaear a niwl yn y nen,--  
 A chyn i'r cystlegrau ymddeffro;  
 Fel milwr Prydeinig gogwyddodd ei ben  
 I'r bedd anrhydeddus wnaed iddo.

Lle huna Cimmeriaid boreuaf y byd  
 Mae yntau y dewraf o'u meibion;  
 O Walia fynyddig, o honot pa bryd  
 Daw milwr fel milwr Nanhoron!

Yn lle mynd i lawr i Nanhoron, troisom i fyny hyd ochr y Garn, gan weled golygfa newydd o hyd. I lawr yr oedd Porth Neigwl, neu Hell's Mouth fel y gelwir ef ar y mapiau. Pan yrrir llong iddo ar dymhestl dywedir nad oes obaith iddi ddianc. Ni fedr fynd heibio yr un o'r ddau benrhyn sydd yn cau am ochrau'r bau, ni welir ond dinistr yn ei haros. Dywedir fod gŵr bonheddig wedi ei droi o Ffrainc mewn cwch, a'r cwch i fynd ym mraich y gwynt i'r fan a fynnai. Daeth y cwch i Borth Neigwl, a daeth y gŵr dihangol yn hynafiad teulu Nanhoron. Dull pobl Lleyrn o ddweyd Lorraine ydyw Nanhoron, meddai adroddwyr y chwedl hon. Nid wyf yn ameu na fuasai'n dda gan lawer brenin Ffrengig droi rhai o deulu Lorraine i'r môr; a buasai'n dda i Ffrainc pe buasai mwy o honynt wedi eu cyflwyno i drugaredd y gwynt,—hen erlidwyr chwerv fu llawer o honynt. Ail adroddiad ydyw'r hanes, hwyrach, o hanes Joseph o Arimathea; ond y mae mor debyg i wir a llawer ystori adroddir am achau boneddigion Lleyrn.

Ond dyma olwg ardderchog ar y Garn, yr ydym wedi dechreu troi am dani. Ar ei llethr uwchlaw i ni y mae ardal o dai gwynion Garn

Dolbenmaen. I lawr drachefn hyd riw serth at eglwys, a phentref bychan gwasgarog yn ei ymyl. Dyma bentref Llaniestyn. Eglwys, ysgol, ty to gwellt, ac ychydig dai ereill,—dyna'r cwbl sydd yno ond y fynwent. Ond gwyddem fod dau beth yn yr ardal hon na fynasem er dim beidio eu gweled,—cartref Ieuan o Leyn a bedd Robert Jones Rhos Lan. Cawsom afael mewn gŵr ieuanc nad ydyw ei enw yn anadnabyddus it, ddarllennydd mwyn, ac feily nid yn ofer y bu ein taith.

"Ydyw," meddai, "y mae Robert Jones yn y fynwent yma, a dacw Dy'n y Pwll, cartref Ieuan o Leyn."

Cyfeiriodd ein sylw at sfermdy gwyn-galchog, rhyw bedwar hyd cae uwch ein pennau, rhyngom a'r Garn. Yr oedd niwl yn crwydro hyd wedd urddasol y Garn, a honno'n edrych i lawr arnom dros gartref Ieuan o Leyn.

Ond cyn dringo'r Garn, troisom ein sylw at yr eglwys. Y mae rhesi o goed cysgodol o bobtu'r dramwyfa at ddrws yr eglwys; ac y mae eu cysgodion yn help i ddwyshau meddwl yr hwn elo iddi. Y mae golwg hynafol a dieithr ar yr eglwys pan eir iddi gyntaf. Gwelir eglwys ddwbl, gyda phedair colofn; y mae llofft uwch ben yr hen ddrws. Saif bedyddfaen hen ar ein cyfer, a charreg fedd ar ei phen yn y mur yn ei ymyl. Ar y garreg fedydd y mae llewpard *rampant*,—gallai fod yn rhyw greadur arall, o ran hynny, yn llew neu'n ddraig goch. O gylch y llun anifail y mae'r ymadrodd hwn,—

HIC JACET SEPULTUS  
EVANUS SAETHON DE SAETHON  
ARMIGER  
OBIT XXIII FEBRUARII ANNO DNI 1639.


Os darlennais yr ysgrif yn iawn, dywed mai "yma y gorwedd yn gladdedig Ifan Saethon o Saethon, yswain; bu farw Chwef. 23, 1639." Nis gwn ddim o'i hanes, ond gwelir iddo gael marw ar fin y Rhyfel Mawr. Y mae'n ddigon tebyg mai o'r gwpan sydd yn y bedyddfaen y bedyddiwyd ef, fel cenhedlaethau o'i flaen.

Y mae pethau dyddorol yn yr eglwys. Y mae yno elor feirch; bu'n dda wrthi i gludo ffermwyr ochrau'r Garn ar hyd llwybrau anhygyrch i dŷ eu hir gartref. Yn y llofft uwchben y mae cist i gadw cofnodion y festri; y mae yno hefyd efail gŵn a'r dyddiad 1750 arni. Byddai cwn y boneddigion a'r ffermwyr yn dod gyda hwy i'r eglwys unwaith, a byddai cryn drin ar y cwn weithiau. Pan ddechreuent ymladd, cymerai'r clochydd yr efail gŵn, a gwasgai hi nes yr ymsaethai ei throion cuddiedig allan, er mawr ddychryn i'r cwn a wthid ymaith ganddi. Os na welaist fegin gŵn, ddarllennydd, gwna nifer o groesau, a'r hoelen yng nghanol pob croes yn llac. Rhwyma bennau y croesau wrth eu gilydd, yn un gyfres hir, a bydd gennyf efail gŵn.

Y mae pen yr allor yn llai dyddorol, er mai yn y pen hwnnw y mae'r adeiladwaith hynaf. Y mae cymrawd o Goleg yr Iesu, Ellis Anwyl wrth ei enw, wedi ei gladdu yno er 1724; ac y mae coflech oreuredig yn dweyd am y gogoniant tanbaid y mae wedi mynd iddo.

Ond y mae'n bryd i ni fynd o'r eglwys, gan fod llawer o ffordd eto cyn y byddwn wedi amgylchu'r Garn. Awn at fedd Robert Jones Rhos Lan,—cawn weld ei gartref hefyd cyn diwedd y daith. Y mae'r bedd ym mhen uchaf y fynwent, wrth y mur isel sydd rhyngddi a





MADRYN.

ffordd gul. Oddiyno gwelir fod Llaniestyn  
mewn pantle hyfryd, a fod y fynwent ar lethr.  
Y mae tai ar dair ochr iddi. Ymgyfyd y Garn  
uwch ei phen, a niwl parhaus a welsom ni ar ei  
chopa. I'r cyfeiriad arall gwelem Fynydd y  
Rhiw'n codi'n las dros y gefnen. A dyma sydd  
ar y bedd,—

Er cof am  
MAGDALEN,  
Anwyl briod y Parch. Robert Jones,  
Ty Bwlcyn,  
Bu farw Ebrill 25ain 1813,  
yn 65 mlwydd oed.

Mewn lletty gwely gwaelwedd—yn dawel  
Diau mae'n gorwedd;  
Cyfyd o lwch y ceufedd,  
O lun gwael yn lân ei gwedd.

Hefyd y Farch. ROBERT JONES,  
Ty Bwlcyn.  
Hunodd yn yr Iesu Ebrill 18fed 1824  
yn 84 mlwydd oed.  
Wedi bod yn pregethu yr efengyl am dros 60ain  
ml. yn mhlith y Trefnyddion Calfnaid.

Gorweddaf, hunaf mewn hedd—fer ennyd  
I fraenu mewn llygredd;  
Er y llwgr a'r hyll agwedd,  
Onid gwych fydd newid gwedd.

Pwy ysgrifennodd Gymraeg gloewach? Pwy  
ymdrechodd fwy dros addysg Cymru yn amser  
yr anwybodaeth mwyaf? Erys ei *Ddrych yr*  
*Amseroedd* yn un o glasuron Cymru tra'r iaith



mewn cof. Gresyn fod ei *Leferydd yr Asyn* a'i freuddwydion yn anhysbys hyd yn oed i rai sy'n gwybod yn dda am *Raw'n Sypiau Canan*.

Heddwch i'r pregethwr ffyddlon a'r hanesydd campus,—un welodd ddrych amseroedd rhyfedd iawn.

Ond ein prif neges oedd ymweled â chartref Ieuan o Leyn. Tybiem o'r pentref ei fod rhyw hanner y ffordd rhyngom a chreigiau'r Garn. Cawsom lwybr troed oddiwrth yr ysgol, a dechreuasom dynnu i fyny hyd weingloddiau a ffriddoedd. Collasom y llwybr yn fuan; ac oni bai mai haf oedd, gallasem fynd i byllau neu ffosydd. Ond yr oedd y ty bychan tlws yn y golwg o hyd, a'r coed y tu hwnt iddo, a'r Garn fawr ddifrifddwys yn ei chymylau o hyd. Yr un oedd y blodau bach siriol a'r blodau welir o gylch cartref pob bardd Cymreig, byddaf yn meddwl fod rhai blodau a beirdd yn mwynhau yr un math o awyr a gwlad. Wrth ddringo i fyny dychmygwn weled y plentyn

“Pan wrth y ffrwd yn eistedd  
I wyllo'r pysgod mân,  
Neu'n rhedeg dros y werdd-ddol  
Yn uchel iawn ei gân.”

Heibio'r goeden ddraenen gysgododd Ieuan ymhell cyn iddo ddweyd beth sy'n hardd, daethom at y ty. Y mae wyres i Ieuan yn byw yno'n awr, ac yr oedd ŵyr ar ymweliad â'r lle y diwrnod hwnnw. Cawsom bob croesaw a charedigrwydd,—yn wir, ni welais yn unlle bobl mor drwyadl garedig a phobl Lley'n. Y mae'r olygfa o Dy'n y Pwll yn un sy'n esbonio llawer ar fywyd Ieuan o Leyn. Draw o'n

blaenau yr oedd Porth Neigwl, a Phen Cilan a Mynydd y Rhiw o bobtu iddo. Ar y gwaelod odditanom yr oedd Llaniestyn dawel, fel pe mewn mwy o bant na'r môr. Rhwng y llan a'r môr yr oedd gwlad fryniog, a choed duon, ac ambell adeilad hyd-ddi.

"A oes rhywbeth enwog yn y fan acw?" ebe fi.

"O oes," oedd yr ateb, "y mae ysgol Botwnnog yn y fan acw, a J. R. Williams."

Cerddodd Ieuan o Leyn lawer i ysgol Botwnnog, yr ysgol sydd wedi bod o gymaint bendith i fechgyn Lleyn, a hawdd oedd iddo gyfeirio adre at y Garn o bob man. Ymgyfyd y Garn Fadryn yn fawreddog y tu ol i Dy'n y Pwll, ac yr oedd heulwen dlos yn chwarae ar ei phen rhwng y cymylau. Y mae'n ddigon tebyg mai'r cwmwl acw ddenodd sylw'r plentyn yn un o'r pethau cyntaf; a phan adroddodd adgofion ei febyd, daeth niwl pen y Garn i'w feddwl yn gyntaf peth,—

"Fe wisga'r cwmwl gwanllyd  
Wrth gilio lawer gwedd,  
Bydd weithiau'n wgu hynod,  
Ac yna'n llawn o hedd;  
Gwna weithiau wisgo mantell  
Orbruddaidd galar du,  
Pryd arall chwery'r wawrddydd  
O gylch ei odrau'n gu."

Dyna ddarlun cywir o'r Garn fel y gwelsom ni hi. Edrychodd Ieuan oddiar ei bron i'r pellter draw ac i ddyfodol ei fywyd. Wrth edrych ar y môr pell, ac wrth feddwl am ras yr efengyl,

daeth ato awydd mynd draw i adrodd am yr Iesu wrth frodorion Demerara,—

“ Pan hwylus ddringwn ochrau  
Carn Fadryn, bryn y bri,  
Er gweld y llongau'n nofio  
Ar wyneb glas y lli,—  
Gwnai llygaid craff y nefoedd  
Fy ngwylio bob rhyw gam,  
A'i llaw fy hoff amddiffyn  
Fel tyner law fy mam.

“ Er colli rhiant hawddgar,  
Er claddu mam a thad,  
Er croesi dyfnion foroedd  
I bell estronol wlad;  
Er crwydro drwy beryglon,  
Er mynd o fan i fan,  
Ces gwmwl Duw yn gysgod,  
A'i ras yn werthfawr ran.”

Wedi golwg unwaith wedyn ar y cymylau ar y Garn,—“ Beth sy'n hardd? Y cwmwl goleu,”  
—ar Graig Bwlch y Groes, ar y pentref a'r fynwent, ac ar y môr draw, troisom i lawr yn ol. Ym Medi 1872 yr oedd Ieuan o Leyn ar ymweliad â'r lle hwn, ac yn dwedyd,—

“ Mae popeth yma'n debyg  
Ag oedd flynyddau'n ol,  
Y defaid borant ar y bryn,  
A'r gwartheg ar y ddôl.

“ Mae'r bechgyn yn y pentref  
Yn chware'n llawn o stwr,  
A'r eneth fwyn wrth odro'r fuwch,  
Yn meddwl am gael gŵr.

“ Caf wrando yr emynau  
 A ddysgais gynta erioed,  
 Pan oeddwn yn fachgennyn llon  
 Rhwng pedair a phump oed.”

Ac wrth weled y fynwent odditano, yn ddelw  
 o orffwys y rhai lluddedig, lleddfodd ei gân,—

“ Mynd heibio fel yr afon  
 Mae dyddiau goreu'r oes,  
 A dweyd am Ieuan wneir cyn hir,—  
 ‘ Ei einioes yntau ffoes.’ ”

Gan gydweled ag Ieuan fod “ y byd yn llawn o degwch a'r nef yn gwenu'n gu,” troisom ein cefnau ar Lanestyn dawel, ac ail gychwynasom ar ein tro o amgylch y Garn. Yr oedd y mynydd mawr yn newid o hyd, a buom yn prysuro i fyny hyd gwm oedd rhyngddo a bryniau sy'n sefyll rhyngddo a'r môr. Cawsom ennyd o gwmni un o feibion Moses Jones,—gŵr a goleu diddan yn chwareu yn ei lygaid, a danghosodd i ni gyrrau'r wlad. Yn union o'n blaenau yr oedd agorfa yn y mynyddoedd, a gwelem Fynydd Nefyn yn codi'n las dros wastadedd. Arosasom beth ar gyfer Ty Bwlcyn, wrth draed y Garn, ond nid oedd gennym amser i fynd i mewn i weled hen gartref Robert Jones Rhos Lan. Melus oedd syllu ar y fan yr ysgrifennwyd “ Drych yr Amseroedd ” ynddo. Dyma ni wrth gapel y Dinas,—un wnaed yn adnabyddus ymhell o Leyn oherwydd ei gysylltiad â Moses Jones,—ac yn fuan iawn gwelem y môr.

Am ennyd anghofiasom y Garn, a chawsom olygfa ar wastadedd a môr nad anghofiaf hi'n

hir. Wrth deithio hyd ochr y Garn ac i lawr at Felin Madryn, yr oedd gwastadedd cyfoethog fel meusydd canolbarth Lloegr odditanom. Ar ei fin yr oedd Porth Dinllaen, lle tawel hyfryd yn awr, ond lle welir yn nychymyg llawer un mor brysur a Chaer Gybi neu Lerpwl. Dros y môr gwelem mylon Mon, i fyny at Gaer Gybi. Ar yr ochr arall ymgodai Carreg y Llam a'r Eifl megis o'r môr. Ymagorodd yr olygia o'n blaenau ar unwaith, yng ngogoniant lliwiau tyner hwyr brydnawn ym Medi.

Yr oedd cartref un arall o feibion Carn Fadryn heb i ni ei weled. Gwyddem fod unigedd a thristwch ar gartref gwag ac anrheithiedig Syr Love Jones Parry. Yr oeddwn wedi darllen hanes gwerthu llestri arian yr hen deulu i estroniaid yn Llundain. Clywswn fod ei ystafell wely eto fel yr oedd pan gyrhaeddodd hi i farw, —ei glud gelfi fel y gadawodd hwynt pan wysiwyd ef o ifaen ei Farnwr. Na chofier ei feiau, er lliosoced oeddynt, efe oedd un o arwyr cyntaf gwerin ddeffroedig Cymru. O fysg tîrfeiddianwyr hynod, hyd yn oed ymysg eu rhyw, am eu gorthrwm ac am eu gelyniaeth at ryddid ac addysg, cododd ef i arwain gwerin i fuddugoliaeth. Bu'n anwylyd sir Gaernarfon; ac y mae enw "Syr Love," er pob flaeledd, yn anwyl eto. Meddai gyfoeth, athrylith, a chariad gwlad, — ni fu neb erioed yn gyfoethocach; ac ni fedrodd neb wneyd ei hun yn fwy tlawd. Heddyw y mae llawer yn cofio am y fuddugoliaeth heb son am ei enw, ac ni wŷr neb pa un ai gwesty ynte cartref rhyw ddieithr ddyn fydd cartref y rhai olrheinith eu hachau i Lywelyn Fawr.

Ond dyma ni mewn coed hyfryd, a'r dail yn dechreu troi eu lliw yn y fan gysgodol

dawel. A chyn i mi gael amser i sylweddoli ymhle yr oeddwn, wele blas Madryn o'n blaenau. Gwelais lawnt yn disgyn yn raddol oddiwrth wyneb y plas at y ffordd, a thybiwn mai dyma'r lle tecaf a welais erioed. O flaen y plas y mae rhag-adeilad, a'r drws i'w weled trwy fynedfa. Y mae grisiau'n arwain i fyny at y fynedfa hon, ac y mae'r mwsogl a'r glaswellt yn cael tyfu hyd-ddynt yn ddiwahardd. Y tu ol i'r rhag-adeilad ymestyn gwyneb hir y ty,—tŵr yn y canol, ac aden o bobtu. Y mae popeth ar ddull henafol,—y twll baredig yn y drws i siarad drwyddo, a lle i'r saethyddion,—ond gwelir fod yno le i holl gysuron oes heddwch a llwyddiant. Feth prudd iawn ydyw gweled cartref mor gysurus yn wag, a'r aer olaf wedi marw. Prudd yw meddwl am ddiwedd teulu anrhydeddus, hyd yn oed pe diweddai fel y ffordd Rufeinig enwog honno,—mewn cors. Prin y gwelais beth pruddach erioed na chartref fu mor anwyl i werin Cymru wedi mynd mor lwyr ddiobaith.


Dros y plas gwelir copa Carn Fadryn. Bu agos i mi ddechrynnu pan godais fy ngolwg ati,—edrychai mor agos, fel pe'n gwylio Madryn, ac yr oedd cymylau fel gwisgoeddd gweddw dros ei hysgwyddau. Am ennyd, bum yn ansicr pa un ai drychiolaeth ynte'r Garn oedd. Temtir fi i gymharu dyheadau Ieuan o Leyn a Syr Love wrth edrych arni pan yn blant,—mae ei gwedd yn fwy cuchiog uwchben bwthyn Ty'n y Pwll nag wrth ben plas Madryn,—ond ni waeth i mi heb fynd dros yr hen ystori am fendithion tlodi ac am felldithion cyfoeth.

O wyneb y plas gwelir coed tewfrig, ond o un cyfeiriad. Ac yn y cyfeiriad hwnnw ym-

gyfyd yr Eifl draw yn y pellter, a'u glas gwan yn hyfryd i'r llygaid trwy wyrddlesni'r coed. Ac i lawr odditanodd y mae Nefyn a'i morfa.

Gadawsom y plas gwag, ac aethom ymlaen. Yr oeddym erbyn hyn wedi bod o amgylch y Garn, yr oedd Nefyn odditanom, yr Eifl ar ein de, ac yr oedd ein gwynebaw tua Phwllheli. Arweiniai'r ffordd ni drwy goed, ond yr oedd y môr a'r gwastadedd yn y golwg rhyngddynt o hyd. A phan ddaethom o'r coed i ffordd uchel fynyddig, gwelem yr Eifl, yn fawreddog lonydd, a niwl goleuwyn ar eu pennau. Yr oedd yn dechreu nosi erbyn hyn, ac yr oedd y dyffryn odditanom yn mynd yn aneglurach, a chopau pigfain yr Eifl yn duo rhyngom a'r awyr.


Daethom yn ol i ffordd Pwllheli, a gwelem Garn Fadryn o'n holau. Yr oeddym wedi bod o'i hamgylch ac wedi gweld hyfrydwch Lleyn. Oddiyno i Bwllheli ni siaradsom ond ychydig, nid am nad oedd gennym ddim i'w ddweyd, ond oherwydd fod ein meddyliau'n llawn.







CASTELL HARLECH.



HARLECH A'R CASTELL.

#### IV. HARLECH.

YR oedd ein ffordd o'r Penrhyn tua Harlech yn rhedeg yn llinell union hyd wastadedd glan y môr, ac nid peth welir bob dydd yw ffordd union ym Meirionnydd. Ar y llaw dde yr oedd Môr y Werddon; ar y chwith yr oedd y mynydd yn codi'n serth, weithiau'n llethrau coediog, dro arall yn greigiau. Unwaith gwel-som fryncyn bychan yn codi uwchlaw gwyneb gwastad y morfa. Dywedodd rhywun oedd yn cyd-deithio â ni mai ynys oedd y bryncyn hwnnw unwaith. Troais at wladwr oedd yn eistedd yn yr un cerbyd, a gofynnais enw'r ty oedd yn ymnythu yng nghesail y bryn ar y morfa.

"Glasynys," ebe yntau.

"Ai dacw gartref Bardd Cwsg?"

"Ie, yr oedd Elis Wyn yn byw yr ochr arall i'r bryn acw. Eu beudy nhw ydi'r beudy wel-wch chwi ar y mynydd i fyny fan acw; ac mi fyddant yn dweyd y byddai'r Bardd Cwsg yn mynd i fyny ffordd acw'n aml."

Ni synwn i ddim nad dringo'r llethr serth acw wnaeth ar ddydd haf hir-felyn tesog, pan

ddaeth ei drwmgwsg ato, gyda'r holl weledig-aethau rhyfedd hynny ar ei adenydd esmwyth. Ond dyma'r tren yn arafu, a'r rhan fwyaf o honom yn rhedeg at y ffenestr i weled Castell Harlech. Yr oedd yn ddigon hawdd ei weled, gwgai wrth ein pen.

Saif gorsaf Harlech, adeilad bychan digon anolygus, dan y Castell. Yn ochr y môr y mae morfa gweddol eang, ond y mae tywod-fryniau yn cau'r môr o'r golwg. Wedi i'r tren adael yr orsaf ar ei ffordd i gyfeiriad yr Abermaw, codasom ein llygaid i weled y castell. Ymgyfyd ei graig yn syth o fin y morfa, ac o bell y mae fel brân ddu neu ddarn o felldith rhyngom â'r goleu. Gwelem o'r orsaf ddau dŵr a mur rhyngddynt, a thŵr arall yn edrych dros y mur. Ac o dan y rheini yr oedd llethrau creigiog, rhai yn graig ddaneddog a rhai gyda gorchudd o laswellt. Gyda godreu'r graig yr oedd mur arall, a dau dŵr bychan, fel pe'n cerdded ymlaen yn herfeiddiol o flaen y tyrrau mawr. Yr oedd yr olygfa'n fawreddog, ac yn brydferth hefyd. Yr oedd glaswellt y mynydd yn dlws hyd y llethrau, a'r eiddew yn ymgripio dros lawer carreg hagr. Yr oedd ambell goeden griafol hefyd wedi cael lle i'w gwreiddiau yn agenau y graig; ac yn gwyro mewn lledneisrwydd prydfierth ac mewn perffaith anwybod-aeth mai ym mangre creulondeb a chyffro yr oedd ei dail yn dawnsio mewn heddych yn awel yr haf. Yng nghanol yr olygfa, ger y hen gastell marw,—ond marw a gwg haearn-aid ar ei wyneb,—yr oedd un peth byw iawn. Disgynnai rhaeadr ewynnol i lawr oddiar ddibyn y graig, gan redeg hyd agen ag ymlau

glaswelltog iddi, cyn ymlonyddu ar y morfa. Boddai ei swm y su wan ddeuai o'r môr dros y morfa.

Y tu hwnt i'r castell ymgodai'r mynydd-oedd. Gwelem goed a rhedyn, ambell gae gwyrdd, a gwyneb gwyn-galchog ambell dŷ. Ar ol y castell, y peth nesaf dynnodd fy sylw oedd capel mewn lle gwyntog ac ystormus iawn. Gofynnais i wr oedd wedi dod i'r orsaf i holi am nwyddau,—capel pwy oedd y capel.

"Nid ein capel ni ydyw hwnacw, ond capel y Bedyddwyr Albanaid. Mi glywsoch son am John Ramoth Jones?"

"Mi glywais son am John Richard Jones o Ramoth."

"O, mae'n debyg eich bod chwi yn un o honynt. Y maent yn addoli yn y fan acw fel yr oeddynt yn amser Robert Morgan a John Ramoth. Mae'r dynion a'r merched yn eistedd ar wahan. Mae'r merched yn eu hetiau silc, y rhai priod gyda'r cap gwyn o amgylch eu pen, a'r rhai di-briod a ruban piws ar eu bronau. 'Ch'di' a 'chdithau' fyddant yn ddweyd wrth eu gilydd hefyd. Onid felly'r ydych chwi?" meddai wrth borter safai yng nghlyw'r ymddiddan.

"Ie, 'r hen bobol," ebe'r bachgen.

Gwelwn yn eglur y cawn ddigon o wybodaeth ddyddorol yn Harlech. Cymerais fy llety dan gysgod y castell, ac yn ei olwg. Y peth cyntaf a wneis tra'r oedd pobl y ty yn paratoi bwyd, oedd darllen mabinogi Branwen ferch Llyr. Tybiwn, wrth ddarllen y fabinogi, fod y môr yn dod at droed y graig yr adeg honno, ac y gallai mai ar y fan yr eisteddwn i y safai 'r

Gwyddelod i siarad a'r brenin Cymreig oedd ar graig uchel uwch ein pen.

"Bendigaid Frân, mab Llyr, a oedd frenin coronog ar yr ynys hon. A phrydnawngwaith yr oedd yn Harlech yn Ardudwy. Ac yn eistedd yr oeddynt ar garreg Harlech uwch ben y weilgi. Ac fel yr oeddynt yn eistedd felly, hwy a welent dair llong ar ddeg yn dyfod o ddeheu Iwerddon, ac yn cyrchu tuag atynt, a cherdded rhigl ebrwydd ganddynt ar y tonnau. Ac wele un o'r llongau yn rhagflaenu y lleill, a gwelent godi tarian yn uwch na bwrdd y llong, a'i swch i fyny, yn arwydd tangnefedd."

Pan gyrhaeddais i'r fan yma ar yr ystori daeth hen wr i mewn, i ddweyd y byddai'r bwyd yn barod yn fuan iawn. Er mwyn tynnu ysgwrs, gofynnodd beth oeddwn yn darllen. Dywedais innau mai hanes Branwen ferch Llyr. —fel y deuwyd i Harlech i'w chyrchu'n wraig i frenin yr Iwerddon, ac fel y daeth dinistr i Ynys y Cedyrn a marwolaeth i Fendigaid Frân o hynny. Dywedais fel y daeth pum gŵr dihangol a phen eu brenin gyda hwy o'r Iwerddon, ac fel y buont ar giniaw yn Harlech am saith mlynedd, ac adar Rhiannon yn canu iddynt.

"Y mae swyn mawr mewn canu," ebe'r hen wr, cyn i mi orffen yr ystori. "Leiciwch chwi glywed tôn?"

A chyn i mi gael amser i ateb, yr oedd wedi gosod ei hun mewn ystum canu, a chanodd gân ddirwestol gynhyrfus mewn llais rhyfeddol o felus a chllir.

"Ddyn," ebe fi wrtho ar ol iddo dewi, "ai un o adar Rhiannon ydych chwi? Nid un o frain Harlech ydych."

Daeth y bwyd cyn i'r hen wr offen esbonio ei fod yn dod o'r un ardal a minnau, a'i fod yn canu tonau gyfansoddodd fy nhad, a'i fod wedi canu llawer mewn cyngherddau drwy Gymru, a fod ei fryd yn awr ar fynyddoedd yr Andes. Wedi'm nawnbryd, cychwynnais innau allan, gan feddwl dringo'r ffordd serth i'r castell a'r dref fry. Deuais o hyd i hen wr bonheddig oedd yn araf ddringo'r allt o'm blaen. Gan fod y llwybr mor serth, arhosem yn fynych i gael stori newydd, ac i gael golwg ar y môr oedd yn ymddisgleirio fel arian byw. Pan glywodd fy nghydymaith mai o Eifionnydd y deuais, gofynnodd a oeddwn wedi darllen gwaith Dewi Wyn. "Yr wyf yn ei gofio'n dod i aros i dŷ Edward Morgan y Dyffryn," meddai, "a minnau yn gwarchod gydag ef pan oedd y teulu wedi mynd i'r capel. Yr oedd yn cerdded yn wyllt yn ol ac ymlaen hyd yr ystafell. 'Y mae pobl y ty yma yn rhai caredig hynod,' meddai, 'ond wyddoch chwi beth? Mi fedrwn edrych ar bob un o'honynt yn y tân yna. Y mae fy nerves i wedi ffwdro.' Ac mi ofynnais innau iddo ai nid efe oedd wedi canu am elusengarwch. 'Ie,' meddai, 'ond yr oeddwn i'n ddyn hollol wahanol yr adeg honno.'" A llawer hanesyn cyffelyb glywais ar yr allt am lenorion Cymru.

Adroddodd hanes ei daith gyntaf i Lundain tuag 1830. Yr oedd yno yng nghanol terfysg etholiadol 1832. Yr adeg honno yr oedd swyn y rhyfeloedd yn erbyn Napoleon wedi colli ei nerth; anghofiodd y bobl am ogoniant Trafalgar, a Thalavera, a Waterloo; ond nis gallent anghofio y prisiau uchel, yr arian prin, yr yd drwg a drud, a holl ganlyniadau alaethus

rhyfel. Torasant eu delwau mewn lliid, y rhai oedd fwyaf poblogaidd gynt oedd gasaf yn awr. Arweinydd y dydd oedd Duc Wellington, y "duc haearn" a fynnai yrru popeth ymlaen yn y dull arferol drwy nerth braich ac ysgwydd a chledd a bidog a magnel. "Rhaid i lywodraeth y brenin fod mewn grym" meddai wrth amddiffyn gormes y buasai gormes Napoleon yn well nag ef. Ond yr oedd ei ddydd yntau ar ben, a llais crynedig gwrthryfel yn codi'n ysgrech. "Gwelais Dduc Wellington," ebe'm cydymaith, "yn High Holborn, a'r dyrfa yn ei luchio ag wyau drewllyd."

Yr oedd Bil 1832.—"Deddf Rhyddfreniadaid y Bobl,"—o flaen Ty'r Cyffredin. Arweinydd y bil oedd Lord John Russell. Ei brif wrthwynebydd oedd Syr Francis Burdet,—tad y Lady Burdet-Coutts. Yr oedd y gŵr amryddawn a phenboeth hwn wedi bod yn un o brif arweinyddion y diwygwyr. Ei dreial ef achosodd y prif newid yn neddfau athrod. Yr oedd haid o feirchfilwyr hanner meddwon wedi rhuthro ar dyrfa heddychlawn ym Manchester, ac ysgrifennodd Syr Francis Burdet lythyr at ei etholwyr i ddynoethi'r traha. Rhoddwyd ef ar ei brawf am athrodi'r Llywodraeth; a gwrthodwyd iddo gyfiawnhau ei hun trwy ddangos mor anynol oedd ymddygiad y Llywodraeth. Caedd ei ddrws, a bariodd ei ffenestri, y tro hwn neu ryw dro arall; a phan fedrwyd torri ei ddrysau, cafwyd ef a'i fachgen ar ei lin, yn dysgu egwyddorion *Magna Carta*. Yr oedd y treial mor anghyfiawn fel y newidiwyd y gyfraith. Yn ol Deddf Lord Campbell gellir cyfreithloni athrod yn awr ar ddau amod,—(1) ei

fod yn wir, (2) ei fod wedi ei gyhoeddi er lles y cyhoedd. Yr un gŵr egniol fu'n ceisio pasio y naill fil Diwygiad ar ol y llall hefyd.

Erbyn 1832 yr oedd sel Syr Francis Burdet wedi oeri, ac yr oedd yn barod i amddiffyn y cam a gawsai gynt. "Gwelais ef yn codi ar ei draed yn y Senedd" ebe'm hen gydymaith ar riu Harlech. "Clywaf ei eiriau y munud yma, — 'There is nothing so hateful as the cant of liberty.' Cododd Lord John Russell ar ei ol, y fo oedd yn gofalu am y Bil wyddoch. Yr ydw i fel pe'n clywed ei lais ynte. 'There is one thing more hateful than the cant of liberty,' meddai, 'and that is the recant of it.'"

Ni chlywais ac ni ddarlennais yr hanesyn hwn yn unlle arall. Gwr athrylithgar oedd yr adroddydd, yn dod o deulu hoffus ac adnabyddus; bum yn gwrando mewn boddhad wedi hynny, mewn cyfarfodydd crefyddol a pholitic-aid, ar ei feddyliau byw ac anibynnoi. Dywedodd lawer o bethau ereill am dano ei hun wrthyf ar yr allt, pethau fu'n broffwydoliaeth i mi, a phroffwydoliaeth chwerw iawn. Pe gwelwn ef yn awr, gwn sut i'w holi. Ond ni chaf ofyn cwestiwn iddo mwy.

Yng nghilfachau'r ffordd droellog aem heibio aml dŷ hen ffasiwn ar lan aber o ddwfr gwyllt, ac uwch ein pennau gwelem res o dai prydfarth yn edrych ar y môr. Ac o'r diwedd, yn dra lluddedig, cyrhaeddais y dref ar ben y graig. Y mae'n anodd cael lle difyrnach, ac y mae llu o adgofion hanes yn perthyn iddo.


Y mae'r castell erbyn hyn yn ddi-aelwyd a di-breswylfod. Eto nid yw ef ond peth cym-



harol newydd yn hanes Harlech. Tua 1284, wedi cwmp Llywelyn, yr adeiladwyd ef. Ei waith oedd sefyll gyda'i gymdeithion o'r un oed, — Cricieth, Caernarfon, Beaumaris, a Chonwy,—i wyllo noddfa olaf anibyniaeth Cymru, rhag i'r ysbryd Cymreig adfywhau. Mae iddo hanes mwy llawn a rhamantus nag odid gastell yng Nghymru. Heriodd Owen Glyndŵr am hir, ond cymerwyd ef. Heriodd frenin Lloegr wedyn, ond medrodd hwnnw ddod i mewn, a chymeryd merch Owen Glyndŵr a'i phlant yn garcharorion. Rhoddodd noddod i wraig anffodus Harri'r Seithfed, a bu'n olaf i ddal ei dir dros deulu Lancaster. Dan ei gysgod, hyd heddyw, y cyhoedda sirydd Meirionnydd pwy yrrir i'r Senedd i gynrychioli ei gwerin.

Y mae Harlech yn llawer hŷn na'r castell. O ba le, tybed, y daeth tylwyth y "brain," a beth oedd eu nodweddion? Pa ystyr sydd i ganu adar Rhiannon? Y mae'r adgofion bron anhyglyw sydd ynglŷn â'r rhain yn ehedeg ymhell iawn yn ol. A phryd y clywyd gyntaf seiniau cynhyrfus "Gorymdaith Gwyr Harlech?" Ai milwyr Llywelyn, ynte Glyndŵr, ynte Harri Tudur a'i canodd hi?





UNGO STRYDOEDD NEFYN.



#### V. TY'N Y GROES.

**M**AE cred etifeddol ym mhobl rhannau o Feirion nas gallant gwbl wella o afiechyd heb fynd i dreulio wythnos ar dywod yr Abermaw. Y mae "mynd i'r Bermo" neu "fynd i'r môr,"—dwy frawddeg gyfystyr i bobl y tir yr wyf yn meddwl am dano,—yn dod yn naturiol i'r meddwl pan fydd y meddyg wedi peidio rhoddi ei fys ar yr arddwrn, a phan fydd y botel olaf o *agua lliwiedig* wedi ei dihysbyddu fesur llond llwy de.

"Aros mae'r mynyddau mawr," aros mae afon Mawddach, ac aros y mae pobl y Bermo. Eto y mae cyfnewidiadau mawrion wedi mynd dros yr ardal swynol hon er pan y mae rhai canol oed yn cofio. Nid oes brysurdeb yn awr yng nglanfa Aberamffra; a cha afon Mawddach lonydd gan gychod, oddigerth gan ager-fad bychan fydd yn gwthio yn erbyn ei thonnau yn yr haf pan fydd y tywydd yn foddlon, a phan fydd digon o "fyddigions" am dreulio peth o'u gwyliau ar yr afon.

Wrth "ŵr bynheddig," — rhif liosog, "byddigions,"—yn y Bermo y meddylir gŵr yn siarad Saesneg, yn gwisgo clos pen glin, yn darllen papur newydd, ac yn ceisio mwynhau ei hun. Yn eu plith eu hunain geilw'r gyrrwyr a'r cychwyr ef weithiau'n "bysgodyn" hefyd. Dywedai gyrrwr wrthyf unwaith, gan gyfeirio fy sylw at gwch rwyfid gan un cychwr—"Dacw Owan Sion wedi câl pysgodyn." "Ym mhle gwelwch chwi'r pysgodyn?" ebe finnau. "Dacw fo, ym mhen ol y cwch." Nid oedd yno ond Sais tew, yn eistedd mor dawel a phe buasai'n ddelw llareidd-dra.

Ychydig o bobl y wlad, rhagor a fyddai, sydd yn y Bermo. "Byddigions" sydd yno yn awr,—“byddigions” ar y tywod yn gwrando ar “fyddigions” yn nad-ganu ac yn lluchio eu heglau o’u cwmpas, “byddigions” ar y stryd, “byddigions” yn y cychod, “byddigions” yn yr orsaf, “byddigions” ymhob man ond yn y capel. Mae pobl y Bermo yn naturiol garedig, ac nid oes bosibl cael gwestywyr gonestach na mwy gofalus, a pheth rhyfedd ydyw fod eu hysbryd a’u hiaith mor Gymreig tra’n mwynhau cymdeithas “byddigions” am rai misoedd o bob blwyddyn. Llenyddiaeth y Bermo, tai’r Bermo, cychod y Bermo,—er mwyn y “byddigions,” erbyn hyn, y maent oll yn bod. Nid oes gennyf air, cofier, i’w ddweyd yn erbyn y “byddigions.” Gwir fod llawer o honynt wedi gadael eu *h* ar eu holau, ac yn dynwared llediaith werinaidd Birmingham. Ond ni waeth beth adawsant ar eu holau os daethant a’u pwrs gwyliau; ac er cymaint gwahaniaeth sydd rhwng Saesneg a Saesneg, y mae delw’r fren-

hines yr un fath ac aur o'r un ansawdd o ba boced bynnag y dël.

Bum innau yn y Bermo, yn nyddiau Medi, a bliniais ar y "byddigions" yn lân. Gwell gen-nyf bobl garedig frawdol y Bermo na hwynt o lawer,—ac eithrio rhyw deulu neu ddau sy'n ceisio dynwared dull eu "lojars" o fyw. Y diwrnod cyntaf, pan godais yn y bore,—wele'r môr o flaen fy ffenestr, yn uchder ei lanw gogoneddus, a thybiais ei fod yn dod a iechyd a gorffwys gydag ef o rywle o wledydd pell. Croesaw, hen donnau anwyl, yr wyf fel pe'n adnabod pob un o honoch,—

" Mae gan yr enaid gydymdeimlad syn  
A swm eich pell-ddisgyniad, donnau per,  
A'ch adsain wan a gollaf ynnof f'hun  
Ar ryw bellderoedd o feddyliau prudd  
A redant hyd fy anfarwoldeb pell."

Anodd ydyw meddwl meddyliau fel hyn yn hir, oherwydd wele'r "byddigions" yn dechreu cymeryd meddiant o lan y môr. Mae rhai yn cario llian ar eu breichiau, llian ymsychu, a gwnant hynny mor wych rodresgar ag y gwelais hwy'n gwneyd yn *restaurants* Llundain a *shaving saloons* Birmingham. Dacw lusgo hen blatfform i'r traeth sy'n melyn yn yr haul wedi i'r don fod yn chwared drosto. Dacw ddy'n yn esgyn arno, dacw redeg o bob cyfeiriad, ac ymdyrru o'i flaen. Wele ef yn rhoi ysgrech, yn rhoddi hergwd i un goes, yna hergwd i goes arall; wele ef yn rhoi un law ar ei ochr, ac yna yn ei gyfeirio i fyny,—O fel y mae'r byddigions yn hir-aethu, ar y traeth barbaraid hwn, am y Little

Slum Music Hall. Mae'r môr yn cilio, mewn ffeidd-dod, ac yn cras ruo ei ddirmyg o'r dynionach a'r merchetos ynfyd. Cyn hir y mae hanner gwlad o dywod o'm blaen, a'r môr yn bell bell. Nid oes yma orffwys i glust na llygad; mae eithafion dau le mwyaf anifyr y ddaear wedi ymgymysgu,—tref or-boblog a diffaethwch, mangre haint a chartref newyn.

Onid ellir dianc i rywle nes y bo'r "byddigions" wedi troi adre? Maent yn mynd yn lluoedd heddyw; gwelaf "wisio gwd bei," chwedl pobl y Bermo, ar lawer carreg drws. Gallwn fynd draw hyd y forlan yn ddigon pell o swm y "canu," a chael rhyw Gymro gwladaidd, diwylliedig,—ac yr wyf bron a chredu fod gwlad-aid a diwylliedig yr un peth,—i ymgomio am ryw fardd ac i deimlo fel

“O flaen efrydion maith y môr,  
A'r golwg ar ei ddyfn di-ddôr,  
Ymloewa bod i'w ddyfnder pur  
A'i anfarwoldeb ynddo'n glir,  
Ymbura'r enaid trwyddo i gyd  
Mor bell i maes o dwrf y byd,  
Nes derbyn ar ei ddyfnder gwell  
Ser tragwyddoldeb a'r dydd pell.”

Neu, oni allem gael cerbyd, a gyrru i rywle i bellderoedd rhyw gwm mynyddig, lle na chlywem ond murmur ambell ffrydlif, a distawryydd y mynyddoedd,—ni chredaf byth nad oes rhyw fath o ddistawrwydd y gellir ei glywed ar y mynyddoedd. Dyna Ddrws Ardudwy, neu Fwch Tuthiad, neu Dy'n y Groes. Ty'n y Groes,—nid oedd gennyf ond adgof dyddiau pell am y lle hwnnw, gadewch i ni fynd yno.

Cawsom addewid am gerbyd i redeg gyda min afon Mawddach,—rhyw ddeuddeng milldir o ffordd, i Dy'n y Groes. Cawsom gwmni hefyd, er nad oeddym wedi bargeinio am hynny; yr oedd hanner dwsin o "fyddigions" yn mynd i'r un cyfeiriad. Yr oeddynt hwy yn nhw fewn y cerbyd; ac yr oeddym ninnau ar y pen blaen gyda'r gyrrwr, ac nid oedd gormod o honom i fod yn gysurus.

Wrth basio'r orsaf, gwelem dyrfa ffwdanus, yn gwau trwy eu gilydd, o bobl yn mynd oddiar eu gwyliau, ac adre. Dywedwyd llawer am golliau pobl y ffordd haearn, ac nid heb achos; yr wyf wedi treulio llawer hanner awr yn ofer yn y tren yn y Junction, gan glywed rhyw swyddogyn botymog yn gwaeddi "All right" bob pum munud, a minne'n gwybod nad yw'r tren yn osio cychwyn. Ond y mae bai mawr ar y cyhoedd hefyd, er fod yn rhaid i aelodau seneddol ac ereill gymeryd y ganiataol fod "y cyhoedd" yn berffaith. Beth feddyliech chi am ymddygiad y cyhoedd y bore hwnnw? Yr oedd pawb yn dod a'i glud enfawr i'r orsaf ar unwaith, pawb eisieu ticed ar unwaith, pob un fel pe'n meddwl fod ffyrdd haearn y byd wedi eu gwneyd ar ei gyfer ef yn unig. Ac oherwydd y difyg meddwl hunanol hwn, yr oedd y tren yn colli hanner awr ym mhob gorsaf, a'r "Cambrian," druan, yn cael mwy o fai nag erioed am gamdrin y cyhoedd.

Yr oedd ein cerbyd ni a'r tren yn cydgychwyn. Teimlem ein bod yn meddu y fantais fawr feddai'r hen ddull o drafaelio ar y newydd,—yr oeddym ni'n carlamu drwy heol y Bermo, a phopeth harddaf yn y golwg; tra yr



oedd yn rhaid i'r tren lithro ymaith drwy'r cefn, a chollasom olwg arno, fel pe buasai dwrch, mewn twll yn y ddaear.

Wrth gael ein golwg gyntaf ar afon Mawddach, hawdd iawn y gallasem benderfynu, dan swyn yr olygfa, mai mewn cerbyd, yn yr hen ddull, y teithiem byth. Odditanom yr oedd yr afon yn llawn, a throsti gwelem ochrau coediog Arthog, a thrumau'r Gader, fel uchel gaer, yn codi y tu cefn iddynt. Ar y chwith codai llethrau grugog eithinog, a'u lliwiau coch a melyn tanbaid yn cystadlu â lliwiau tynerach gwyrdd a glas yr ochr bell.

Ac mor lawn o adgofion i'r Cymro darllengar yw'r holl fro, o ben Cader Idris yn y fan acw, gyda'i hen draddodiad am gwsg yr awen, at Lwyn Gloddaeth yn ein hymyl, cartref bardd nad yw ei wlad eto ond wedi cael prin amser i weled ei werth. Toc daw Marian Dolgellau i'n golwg, gyda'i adgofion am Ddafydd Ionawr; a thu hwnt iddo, ond odid, cawn gipolwg ar y dyffryn coediog fu'n gartref i Ieuan Gwynedd.

O ie, y "byddigions" oedd yn y cerbyd y tu ol i ni,—fu ond y dim i mi anghofio popeth am danynt wrth syllu ar ardderchawgrwydd afon Mawddach. Tri thailiwr o Wolverhampton oeddynt, a'u tair cariadau. Pobl bach hoffus ddigon oedd y chwech, a mwynhaent eu hychydig ddyddiau gwyl yn llawer mwy addysgiadol na'r rhai oedd yn gwylio coesau'r canwyr gwagedd ar y tywod. Rhoddai y gyrrwr iddynt hwy Saesneg a'u syrio i fyny ac i lawr; rhoddai i ninnau Gymraeg a charedigrwydd cartref. Peth difyr i mi oedd clywed beth ddanghosid i'r "byddigions." "There, sir, is the Giant's

Face, sir," ebai, gan gyfeirio ei chwip at aminell crib y mynyddoedd. "We are now, sir, passing through the Fiddler's Elbow, sir," meddai wrth redeg am drofa droellog yn y ffordd.


Druan o'r "byddigions!" Daear, a daear yn unig ydyw Cymru iddynt hwy. Nid yw ei phrydferthwch ond prydferthwch pridd. Iddynt hwy, nid oes iddi hanes nac adgofion. A dyma yrwyr y Bermo yn dychmygu enwau iddynt. Iddynt hwy y mae Traddodiad a Hanes yn fud.


Nid wyf yn eu beio. Deuant hwy i'r Bermo i dreulio eu gwyliau byrr, yr ychydig ddyddiau gânt ymysg dyddiau gwaith diddarfod y flwyddyn. Ond yr ydym ni i'n beio,—am ein gwas-eidd-dra, am ein llwfrdra, am ein diffyg cyfna-byddiaeth â hanes ein hardaloedd ein hunain. Dowch i Gymru a chewch genedl o bobl yn ceisio eich boddhau, gan gredu mai Sais ydych, trwy geisio eich dynward, a chadw eu gwlad eu hunain o'r golwg. Ewch i'r Alban neu i'r Iwerddon, ac yno cewch bobl yn ymorfoleddu yn hanes eu tadau, a hwnnw a adroddant wrthyh. Yng Nghymru ceisir dysgu Sais i ddirmygu'r gweinieithwyr sy'n ceisio dangos iddo, mewn gair a gweithred, mai efe yw arglwydd pawb; yn yr Alban ceisir dangos iddo, er cymaint feddylio o hono ei hun, nad yw ef neb. Os daw rhyw ddydd cof am Wallace neu Bruce ymysg y dyddiau yn yr Alban, bydd pob dosbarth, gwreng a bonheddig, yn ei ddathlu. Ond yng Nghymru, a oes rhywun yn galaru ar ddydd cwmp Llywelyn, neu yn cofio am seren Glyn Dŵr? Edrychir ar ddewrion eu gwlad

gan ein huchelwyr fel pe byddai son am eu henwau'n deyrn-fracwriaeth; a phan ddeffrôdd y werin, oni anurddwyd adeg coffa arwr trwy waith y mân sectwyr yn ceisio penderfynu i ba sect,—a'r sectau hynny, ysywaeth, heb eu geni yn ei amser ef,—y perthynai? Dywedir i un o'n haelodau seneddol ofyn yn ddiweddar a yw Llywelyn y Llyw Olaf yn fyw yn awr,—nad oedd ef wedi clywed ei enw o'r blaen. Hyd nes y cyfyd ein balchder cenhedlaethol, hyd nes y parchwn ein hunain, hyd nes y ffeiddiwn addoliad pob peth estronol am ei fod yn estronol, hyd nes y rhoddwn ddyledus barch i'n tadau ein hunain, ni wiw i ni ddisgwyl parch gan bobl gwledydd ereill.

Y mae dyddiau gwell yn siwr o fod ar wawrio. Dywedai'r gyrrwr fod mwy o Gymry wedi bod yn ei gerbydau eleni nag erioed. Y gwir ydyw fod Cymry'n talu mwy o barch i'w hiaith na chynt, ac yn ei siarad, er eu bod, trwy hynny, yn colli eu lle fel "byddigions,"—yng Nghymru. Oni ddaw addysg, yn enwedig addysg ganolraddol, i roddi syniadau gwell i Gymry am danynt eu hunain? Daw. Ond rhaid cofio fod llywodraethwyr ysgolion, y dydd hwn, wedi dewis Saeson anghymwys o flaen Cymry cymwys. Yn yr uchel leoedd hefyd y mae'r Cymro, a'i wyleidd-dra'n wasaidd, yn plygu o flaen "byddigions."

Ond waeth i mi heb daro tôn mor hen. Gadewch i ni fwynhau yr olygfa ar fynyddoedd Meirion,—ni wargrymasant hwy mewn gwas-eidd-dra erioed. Cawn gipolygon arnynt o bobtu i ni, ac ambell gipolwg ar yr afon sydd yn ein hymyl o hyd, trwy goed tewfrig, a'u dail





DAN GYSGOD Y MNYDD FFESTINIOG.

yn dechreu troi eu lliw. Pa le mor ramantus a'r Bont Ddu? A mwyn fuasai dilyn rhai o'r ffrydlifoedd sydd yn croesi ein llwybr i'w tarddiad yn y mynydd fry,—i fwynhau arogl coedwig ac arogl y mynydd. Dyma gapel ar graig yn codi'n syth o'r afon; mae'n amheus gennyf a oes gapel yn y byd a golygfeydd mor hyfryd o'i ffenestri. Wrth droi ychydig yn ol, dacw Bont y Bermo, a'i phileri'n edrych yn fân ac aml yn y pellder. Ymlaen wele ddolydd gwastad gwyrddion, ac eglwys a mynwent Llanelltyd ar fryn y tu hwnt iddynt. Oddiyma eto y mae'r olygfa yn un nas gall hyd yn oed yr arlunydd, fedr gymysgu ei liwiau i ddynewared pob lliw na fo'n symud, roddi syniad cywir am dani ond i'r neb a'i gwelodd. Oddiyma, fel rheol, y byddai'r hen deithwyr yn cael eu golwg gyntaf ar dlysi afon Mawddach, wrth groesi o Dal y Llyn i Drawsfynydd trwy Ddol-gellau. Yr oeddynt oll yn unfryd unfarn mai un peth oedd yn hagra'r olygfa, a hynny oedd y teisi mawn. Dyna ddywed Pennant, a dyna ddywed llawer ar ei ol.—mae llawer iawn yn cael fod Pennant o'r un farn a hwy, yn enwedig am leoedd y maent yn ddesgrifio heb eu gweled. Ni welais i ddim teisi mawn yno; a phe gweiswn un, ni fuaswn yn gweled dim hagrwech mewn tas mawn. Mae adgofion yn ffurfio chwaeth i raddau pell, ac y mae gen i adgofion hyfryd am fawn,—am iechyd wrth eu codi yn yr haf ar bennau'r mynyddoedd, ac am gysur wrth weled eu tân glân croesawgar ar nos-  
weithiau gaeaf.

Yn union wedi gadael Llanelltyd y mae adfeilion y Fanner yn y ddôl islaw inni, yr ochr

arall i'r afon. Bob tro y gwelaf adfeilion mawr-  
 eddog hen fynachlogydd y Cisterciaid, byddaf  
 yn galaru am y golled genhedlaethol gafwyd  
 pan roddodd Harri'r Wythfed eiddo'r mynach-  
 logydd i'r rhai fu'n ei ddysgu sut i ysbeilio'r  
 eglwys,—rhaf y mae eu disgynyddion heddyw,  
 yn ddigon aml, yn uchel eu cloch dros hawliau  
 crefydd a chysegredigrwydd gwaddoliad. Mur-  
 ddyn, neu breswylfa rhyw Ysgotyn ariannol, yw  
 mynachlogydd y gwn i am danynt. Maent oll,  
 fel y Fanner yn y fan acw, mewn lleoedd dy-  
 munol a thawel,—mor werthfawr fuasent fel  
 ysbytai, fel gwestai, neu fel amgueddfeydd.  
 Daw llawer golygfa i'r cof wrth weled y muriau  
 llwydion acw yn eu gwisg o eiddew,—meibion  
 rhyfelgar Owen Gwynedd yn eu sylfaenu, y  
 mynachod yn ymdeithio o Gwm Hir i'w cartref  
 newydd cynhesach a diogelach, Llywelyn Fawr  
 yn dod a'i roddion yn ei law.

Ond edrychwn ymlaen, yr ydym yn awr yn  
 dilyn afon Mawddach,—ffrwd fynyddig erbyn  
 hyn, ac nid afon fordwyol,—i'r Ganllwyd. Toc  
 dyna ni'n aros o flaen gwesty Ty'n y Groes.

Nis gwn ddim o'i hanes. "Hen dŷ tafarn"  
 oedd yr unig beth fedrwn gael wrth holi; ac  
 adeilad gweddol newydd, heb fawr gamp ar ei  
 gynllun, yw'r ty sydd yno'n awr. Gofynnais a  
 allem gael lluniaeth, yn Gymraeg; a gofynnwyd  
 i mi yn Saesneg beth oeddwn yn ddweyd. Aros  
 gan mlynedd yn ol daeth Mr. Bingley, y teith-  
 iwr, yma; a dywed ef mai Sais gadwai'r dafarn  
 y pryd hwnnw, ac mai prin ddigon o amser  
 oedd wedi gael i ddysgu Cymraeg. Ychydig o  
 dyniad sydd i Gymro at rai galwedigaethau.  
 Gwelais ŵr mawr barfog yn fy nghyfarfod, a

golwg byd da a helaethder beunydd arno,—ystiward oedd, ac Ysgotyn; y mae eu tynfa hwy i leoedd Cymreig fel hyn. Ac yntau'r Cymro, gwell ganddo dreulio ei fywyd i gau clawdd y mynydd ac i yrru ei wartheg i'r ffair na meddwl am fentro i'r byd, fel y gwna'r Ysgotiaid, i ennill cyfoeth a dylanwad.

Y mae'r olygfa o ddrws Ty'n y Groes yn un o'r golygfeydd hynny sy'n aros yn y meddwl, ac yn goreuro llawer breuddwyd. Yn ein hymyl y mae blodau hinsawdd gynhesach,—rhosynau, *nasturtiums*, a *dahlia*s ysgarlad a gwyn. A throstynt gwelir prydferthwch gwyllt cyfrin Cymru. Tyrr yr afon yn ewyn yn y glyn dwfn odditanom; ymestyn mynyddoedd mawr i fyny ac ymhell ar ein cyfer, mewn gwisg o redyn a'i gochder bron fel cochder fflam; ymgyfyd y lartswydd tal cymhesur yn dawel i fyny o ymyl dwndwr y dŵr; estyn llawer derwen.—gweddillion hen aristocratiaid gwlad "brenhinbren y Ganllwyd,"\*—eu canghennau cedyrn y gellid tybio oddiwrthynt fod llwybr arferol y storm o bob cyfeiriad.

Yma hefyd y mae y "swn distawrwydd pell" y gŵyr plant y mynyddoedd am dano. Temtir fi i ddweyd nad oes gwesty yng Nghymru

---

\* Derwen hynod am ei maintioli oedd hwn, dros bedair troedfedd ar hugain o amgylch. Erys darnau ohono fel paladrau olwynion melin ac fel dodrefn,—byrddau a chadeiriau,—ymhell ac yn agos. Y mae minion Mawddach a'i changhennau yn hynod am eu coed,—hawdd iawn eu tyfu yno.



a golygfa mor arddunol i'w gweled o ddrws ei dy,—dyna glywais gan bob un fu'n sefyll ar ben ei ddrws.

Rhyfedd fel y mae chwaeth gwerin yn newid. Heddyw nid oes odid Gymro na wel ryfeddodau yn y Ganllwyd; ond bu adeg na welai gwerin Cymru brydferthwch yn natur wyllt, ac nid ymhell iawn yn ol y dysgodd ei weled. Ebe hen bennill am y fangre swynol yma,—

“ Mae llawer pen boncyn o'r Dinas i Benllyn,  
A dolydd i'w dilyn hyd lawr Dyffryn  
Clwyd;  
Er garwed yw'r creigie sy' o gwmpas Dolgelle,  
Gerwinach nag unlle yw'r Ganllwyd.”

Clod i'r beirdd sydd wedi ehangu ein cydymdeimlad, ac wedi ein dysgu i weled prydferthwch mewn lleoedd oedd yn erwin i'n tadau, ac wedi ein dysgu i garu y gaeaf a'r ystorm. Onid yw hyn yn fwy o ychwanegu cyfoeth hyd yn oed na chynllunio ffordd neu adeiladu pont?

Ni fedrem fynd ymhell o Dy'n y Groes. Yr oedd Llanfachreth yn rhy bell; yr oedd y ddau bistyll,—Cain a Mawddach.—yn rhy bell hefyd. Ond cofiasom fod y Rhoadr Du yn ymyl, a dwedid y gallem ei gyrraedd mewn rhyw ugain munud. Cychwynasom ar hyd y ffordd lydan sy'n rhedeg gyda godrau

“ Hen greigiau mud Ardudwy,  
Er pob rhyferthwy fu,  
Sy'n gwrando'n syn-fyfyriol  
Ar drwst y Rhoadr Du.”

Ar y chwith gwelem Ddolmelynlyn, o'i amgylch y mae y distawrwydd hyfryd a'r dolydd braf gysyllta'r meddwl â phob hen blasdy. Daethom at afon Camlan, a gwyddem ar ei gwylltineb wrth ruthro dan y bont ei bod newydd gael rhedfa chwynn. Troisom i lwybr sydd yn mynd i gwm cul coediog Camlan. Yr oedd heulwen, trwy ambell gawod, ar y coed; a byddaf fi'n meddwl nad oes dim mor iach ac mor hyfryd a'r ddau beth yma,—heulwen rhwng cawodydd ac arogl coedwig. Yr oedd yr heulwen honno fel pe'n ymhoewi yn ei balchder. Fflachiai weithiau ar y dail, oedd eto dan wllth y gawod, gan weddnewid eu gwyrdd ar amrantiad; ond ei hoff fan i ddisgyn oedd ar ewyn y mân raeadrau, neu ar frig crych rhyw don,—weithiau gwnai hwy'n ddisglair, dro arall rhoddai wawr euraidd iddynt, lliw y byddai raid i frenhines y weirglodd blygu ei phen ger ei fron.

Wedi cerdded ychydig hyd y llwybr trwy'r coed, a'r afon yn dawnsio o graig i graig odditanom, daethom yn sydyn i olwg y Rhaeadr Du. Yr oeddwn wedi bod hyd ffordd y Ganolwyd o'r blaen, ond ni ddychmygaswn fod golgyfa mor arddunol mor agos i'r ffordd.—dim ond gwaith rhyw ddeng munud i droed chwim. Gellir dweyd am dano, fel y dywedai John Owen Ty'n Llwyn am y Niagara, nad yw'n ddim ond pistyll. Ond y mae mor fawreddog ac mor brydferth fel y gallasai un heb fawr o natur bardd ynddo ddychmygu fod y coed sy'n tyfu i fyny'n uchel uwch ei ben yn ymgrymu i edrych i lawr arno, ac yn crynnu gan arswyd. Wedi dysgu englyn Dewi Wyn, ni fedraf fi

feddwl am geisio darlunio rhaeadr mwy, ac am hynny waeth i mi roi fy ffidil yn y to yn fuan nac yn hwyr. Ni welais un darlun yn gwneyd cyfiawnder â'r Rhaeadr Du; nac aed neb trwy'r Ganllwyd heb ei weled.

Yr oeddwn wedi meddwl mynd i fyny'r cwm coediog, i eangderau unig y mynydd, i ymorffwys yn nistawrwydd "hen greigiau mud Ardudwy." Ond yr oedd y nerth yn ballu; a gorfod i mi droi'n ol i orffwys. Gwelem fynwent draw, ac fel dynoliaeth luddedig, troisom i honno. Daethom at gapel ar ganol ei adgyweirio; ac ar ei dalcen yr oedd y geiriau Saesneg "Independent Chapel,"—paham y rhaid i gapelau, fel tafarndai, fynnu iaith y tu allan na chlywir hi y tu mewn?

Ond yn y fynwent y mae popeth yn Gymraeg. Mynwent hyfryd yw mynwent y Ganllwyd, wrth droed y brynau coediog, a rhu dwfn yr afon odditanodd i'w glywed yn ddi-baid. Ond ni wna hynny ond dwyshau'r tangnefedd perffaith geir yma, yng nghwmni mud y coed a'r beddau, ac arogl y blodau gwylltion yn pereiddio awel y mynydd. Enwau gyfyd adgofion yw'r enwau sydd ar y cerrig, dieithr ac eto'n adnabyddus,—Rhedyn Cochion, Gwndwn, Dôl Frwynog, Cwmheisian, Hafodlas, Polgoed, Buarthre. Y cyntaf roddwyd i orwedd yn y fynwent dawel oedd John Jones,—yn haf 1855 oedd hynny. Ac er ys deugain mlynedd y mae teuluoedd y Ganllwyd wedi prysur fudo yma, oherwydd y mae'r fynwent yn weddol lawn. Dyma'r englyn sydd ar fedd y cyntaf gladdwyd,—

“ Cristion o galon ddi-gêl—oedd Ioan  
 Trwy'i Dduw daeth yn uchel;  
 Ffodd y sant, llawn ffydd a sel,  
 Fry o'r ing i fro'r angel.”

A dyma fedd canwr,—y mae swm trwm y dŵr  
 i'w glywed oddiwrth ei fedd, a sua'r gwynt yn  
 y derw sy'n tyfu am y mur ag ef. Morris  
 Pugh, Maes Caled, oedd ei enw, bu farw'n  
 wyth ar hugain oed,—

“ Ei einioes yn ei wanwyn—a wywai  
 Yr awel fel rhosyn;  
 Yma mae'i lais a'i emyn  
 Tan glo yn tewi'n y glyn.”

Yr wyf wedi sylwi'n ddiweddar mor lawn o  
 blant yw pob mynwent. Ac nid yw mynwent y  
 Ganllwyd yn eithriad. Dyma fedd dau o blant  
 Cae'n Coed. Bu Enoch farw'n wyth mlwydd  
 oed. Gŵyr llawer am yr ing deimlir wrth weled  
 plentyn yn cario hen enw anwyl teulu i'r bedd  
 yn anamserol. Felly rhoddwyd enw y bychan  
 gollasid ar y baban nesaf, a bu'r Enoch hwnnw  
 farw'n wyth mis oed.

“ Isod dau frawd hynaws<sup>wedd</sup>—a hunant  
 Mewn anwyl neillduedd;  
 Donnir hwy â dihunedd,  
 Iesu a bia eu bedd.

“ Wyth calan oedd rhan yr hynaf,—un wedd  
 Wvth mis gai'r ieuengaf;  
 Y ddau Enoch, ddianaf,  
 Alwyd yn ol i weld Naf.”

Dyma sydd ar fedd bachgen bach Pen y Ganllwyd, fu farw'n dair oed,—

“ Ar ei rudd daear roddwyd,—yn fore  
At feirwon fe'i dodwyd;  
Ag unllaf, fry o'r Ganllwyd  
At ei gân Risiart a gwyd.”

Yr oedd awel terfyn dydd yn anadlu rhwng y bryniau, a thybiwn ei bod yn aros yn hwy ar feddau'r plant. Felly y tybiai'r bardd wrth ganu am William, mab pedair oed Cae Cyrach,—


“ Yr awel fwyn ar ael ei fedd—chwery  
Ei chywrain gynghanedd;  
Nes yn fad i wlad y wledd,—un anwyl  
Gwyd o'i noswyl gyda hynawsedd.”

Bydd gŵr y cerbyd a'r byddigions yn disgwyl am danom. Cawn awel y môr i'n gwyn-ebau, a dyffryn Mawddach bob cam o'n blaen, wrth deithio ein deuddeng milltir yn ol i'n gwesty cysurus yn y Bermo.





EGLWYS LLAN YM MAWDDWY.



PEN BWLCH Y GROES.

## VI. LLAN YM MAWDDWY.

“Llawn im oedd Llan ym Mawddwy,  
Llaw Duw hael a'u llwyddo hwy.”

MATTHEW BROMFIELD.

“**P**EN Bwlch y Groes! Hwre! Dyma ni  
ar y ffordd uchaf yng Nghymru!”  
Dyna eiriau cyfaill afaethus pan gyr-  
haeddasom ben Bwlch y Groes, wedi dringo'r  
ffordd sy'n dirwyn i fyny drwy gwm hirgul  
Cynllwyd, ac wedi gadael Craig yr Ogorf ddan-  
heddog o'n hol. Nis gwn ai gwir ei ddywediad  
ein bod ar y ffordd uchaf yng Nghymru, ond yr  
oedd awyr adfywiol y mynydd, fel gloew win  
puredig, yn ddigon i gryfhau dychymyg bach-  
gen deunaw oed i ddweyd pethau mwy anhy-  
goel. Eisteddais ar gar mawn llwythog, oedd  
un o bobl Mawddwy wedi ei adael yno hyd am-  
ser cyfaddas i'w lusgo i lawr, ac ersteddodd fy  
nghydymaith llawen ar ochr y ffordd, er mai



adeg oer y Nadolig ydoedd. Yr oedd yr awyr yn glir, yr oedd y ffordd yn galed gan rew, ac yr oedd yr haul yn gwenu'n ddisglair ac yn oer ar y mynyddoedd.

Y mae'r olygfa o ben Bwlch y Groes yn ardderchog, hai a gaeaf. Ar un ochr y mae'r Aran frenhinol, ac ar yr ochr arall y mae bryniau afrifed Maldwyn. O'n holau yr oedd Cynllwyd, o'n blaenau yr oedd caeau gwastad Mawddwy ymhell odditanodd, a mynyddoedd gleision yn ymgodi y tu hwnt iddynt. O'r fan yr eisteddwn i, ni welwn ond y mynyddoedd, yr oedd Mawddwy yn rhy isel wrth eu traed.

Llecyn unig a distaw ydyw, ym mhresenoldeb dwys y mynyddoedd tragwyddol. Ond y mae hanesion am fywyd byr dyn ynglyn ag ei. Clywais ddarlunio'r llecyn ar lawer noson dymhestlog, pan yn hel o gwmpas y tân i wrando ystraeon. Weithiau hanes John Jones Treffynnon fyddai testun yr ysgwrs. Darlunnid John Jones yn gweled gŵr yn Llanuwchllyn a chryman yn crogi oddiwrth reffyn gwellt oedd am ei ganol. Yna gwelem mewn dychymyg yr hen bregethwr yn dringo'r Bwlch, ac yn gweled y dyn a'r cryman yn cerdded o'i flaen mewn lle nad oedd na thy na thwlc yn y golwg, lle y cai llofrudd ddigon o amser at ei waith. Yna doi gweddi'r pregethwr, a'i ymgais i dynnu sgwrs â'r angel. Yr oeddym wedi clywed yr hanes laweroedd o weithiau, ond yr oedd yn newydd o hyd. Dro arall hanes y Gwylliaid Cochion gaem; a diwedd eu hanes hwy fyddai desgrifiad o honynt yn golchi eu dwylaw llofruddiog yn y ffynnon ar ochr y Bwlch, ffynnon y mae ei dwfr yn goch hyd y dydd hwn. A dyma'r ffynnon, o fewn ychydig lathenni i'r fan yr eisteddwn,

eto'n goch. Noson wedi hynny caem hanes yr hen bererinion yn penlinio wrth y groes fyddai ar ben y Bwlch. Nid oes na chroes na phererin yma'n awr, ond gwelir ar ffyrdd Llydaw yr hyn fu unwaith ar y ffordd hon.

Ond pe'r arhosem i alw ar gof yr oll a glywsom am hanes a chymeriadau Mawddwy, ai'r dydd gaeaf byrr cyn inni gyrraedd y caeau sydd ar y gwaelod. Rhed y ffordd i lawr yn serth hyd un ochr i'r cwm,—cwm heb waelod iddo ond yr afon wyllt, sydd bron yn rhy bell i lawr i ni glywed ei swm. Yr ochr arall iddi y mae mynyddau uchel a serth iawn, er nad ydynt yn greigiog; weithiau y mae eu hochrau'n wyrddion, dro arall yn ddaear noeth. Ar ol gwlawogydd bydd ffrydiau lawer yn rhedeg o'r mynyddoedd dros y grib uchel acw, a disgynnant yn genllifoedd gwynion dros ael y mynydd. Liawer gwaith y cyffelybwyd hwy yn eu disgynfa i gymylau mwg yn esgyn.

Dyna lais bugail yn adseinio o fynydd i fynydd trwy'r awyr glir,—“Pero, dal dra-a-a-w!” Anaml y gwelais ddau gi tlysach, rhai du a gwyn. yn deall pob goslef yn llais eu meistr. Cerddasom yn gyflym hyd y ffordd, er ei serthed, nes y gwelsom hi'n rhoi tro, ac yn cyfeirio, debygem, yn union i ddannedd y creigiau. Wedi dod yn nes ymlaen, gwelem fod cwm newydd yn agor i'r cwm oeddym ynddo. Daeth amaethwr a llais tanbaid ganddo i'n cyfarfod, a chawsom hanes y fro yn bur gyflawn ganddo. Cwm yr hen sant Tydecho oedd y cwm, a'r afon Llaethnant welm yn disgyn o hono dros y creigiau a than goed. Draw ymhen y cwm hir mynyddig y mae Aran Fawddwy'n edrych yn ddwys ac yn ddu arnom.

A dyma gwm Tydecho sant. Y mae hanes am Faelgwn Gwynedd yn dod i'w ormesu, ac yn cael ei orchfygu gan y sant; fel y cafodd gan gynifer o saint ymhob man, os credwn y Bucheddau. Pan oedd ychen y sant yn aredig y cwm unig acw, daeth Maelgwn Gwynedd ac aeth a'r ychen i fwrdd. Ond yr oedd yn rhaid i'r sant aredig ei dir, a rhoddodd ddau garw gwyllt wrth yr aradr drannoeth, a medrodd berswadio blaidd i dynnu'r og ar eu holau. Wrth weled y ddau garw, a'r blaidd ar eu holau, a'r hen sant yn hau rhwng yr aradr a'r og, chwarddodd Maelgwn Gwynedd. "Peth doniol," ebe ef ynddo ei hun, "fuasai gollwng fy nghwn gwynion ar y wedd ryfedd acw, i weled y ceirw a'r blaidd yn mynd." Eisteddodd ar garreg ar ochr y cwm; ond pan geisiodd godi gwelodd mai yr hen sant gai fwyaf o ddifyrrwch, oherwydd wele, yr oedd llodrau'r brenin Maelgwn Gwynedd, os oedd ganddo lodrau, wedi cydio yn y graig.

Esbonnir yr enw Llaethnant, wrth gwrs, gan ramadegwyr y fro. Trodd Tydecho yr afon yn llaeth,—

Y dŵr rhwydd o odre'r rhiw  
Fe'i gwnaeth yn wynllaeth unlliw,

ac am hynny y galwyd hi yn Llaeth Nant. Hen frodyr doniol a chymhwynasgar oedd yr hen saint, rhyw hanner swynwyr, a hanner cenhadon Cristionogol. Medrent godi cythreuliaid,—medr saint wneyd hynny y dyddiau hyn,—a'u gostwng.

Wrth i ni fynd ymlaen i lawr dyffryn Dyfi ieuanc yr oedd y tir yn frasach a ffrwythlonach,—

"Heldir a gweindir gwyrda  
Eto er dwyn ytir da."

Gofynasom enw ty welem, ac atebwyd ni mai ty Simon Sion Prys. Un enwog yn ei fro oedd Sion Prys, tad Simon. Llauer pennill o'i awen barod sydd eto'n fyw ym Mawddwy, ac yn difyrru to ar ol to o bobl ieuainc. Gŵr hardd oedd, yn dal, ac yn syth fel saeth. Nid oedd ei garedicach yn fyw, ac yr oedd pawb yn yr ardal fynyddig hon yn hynod hoff o hono. Byddai gwên ar ei wyneb bob amser, a chydymaith difyr oedd i bwy bynnag a'i cyfarfyddai. Yr oedd ei awen yn barod ar darawiad, a chofid ei wawd,—

A Thwm ein gwas ninne  
Fu neithiwyr yn rhywle  
Yn fudron ei facsie,  
    Mi dynga, wrth ryw dy;  
Ni chadd wedi myned  
Ond hir rythu'i lyged  
    A bod wrth ei phared yn fferru.

Medrai adrodd hanes ar gân yn rhigil a llyfn iawn, fel honno sy'n dechreu,—

Yn Harbwr Cork yr oeddwn ryw fore gyda'r dydd,  
A phawb oedd yno'n llawen, 'doedd yno neb yn brudd;  
A "Richard" medde Robin, a "Robin" medde Twm,  
"A gawn ni rigio'r hwylic, cyn daw hi'n dywydd trwm?"


Byddai Sion Prys yn mynd ar ei spri weithiau, fel beirdd ereill yr oes honno. A phan ddoi i dref, byddai llu o'i gwmpas, yn gwrando ar ei ffraethineb mewn penhillion difyfyf. Ryw ddiwrnod digwyddai fod yn y Bala, ac yr oedd tyrfa o'i amgylch. Pwy ddigwyddodd ddod heibio ond Price y Rhiwlas, yr ysweinyn yr oedd tra-arglwyddiaethu ar y Bala a'i phobl yn etifeddiaeth iddo. Gorchymynnodd iddo beidio casglu pobl ar y stryd, ond cafodd ateb tafodlym.


"A wyddoch chwi," ebe'r yswain digofus, "mai myfi yw Price y Rhiwlas!"

"A wyddoch chwi," ebe'r bardd, "mai myfynnau yw Price o Fawddwy!"

Y mae llawer o hen anibyniaeth ym Mawddwy, er na chryfhawyd ef gymaint gan y Diwygiad ag a wnawd mewn ardaloedd ereill. Y mae llawer o olion hen anibyniaeth Cymru yn arglwyddiaeth Mawddwy, ac y mae lle i obeithio y bydd y *court leet* yn dal i gyfarfod hyd nes y ceir Cyngor Lleol a Llys Tir.

Drwy lawer canrif, er amser Bleddyn ab Cynfyn a chynt, cadwodd Mawddwy rywbeth tebyg i anibyniaeth. Ni wnawd hi'n rhan o sir yn 1284, fel Cymru i'r gorllewin iddi hi; ni ddaeth yn arglwyddiaeth Normanaidd, fel Cymru i'r dwyrain iddi. Arhosodd yn arglwyddiaeth Gymreig, gan newid ei ffurf i ffurf maenor. Yr oedd ym meddiant ei hen deulu pan aeth Pennant drwyddi yn nechreu'r ganrif hon. Er ei bod wedi colli braint ar ol braint,—meddu maer, rhoi rhai drwg yn y feg fawr, rhoddi trwyddedau i dafarnau,—y mae eto olion o'i hen anibyniaeth ar y sir. Cyferfydd y *court leet* ddwy waith yn y flwyddyn; a bu hwn ryw





CORNEL O'R HEN LAN YM MAWDDWY.

dro yn fath o lys tir, lle y cedwid hawl y tenant yn ogystal a hawl y meist'r. Y mae'n wir fod y tenant dan lawer rhwymedigaeth ddigon chwerw,—megis talu dirwy am briodas merch,—ond yr oedd ganddo hawl i'w dir. Pan ddi-dymir *court leet* hynafol Mawddwy, er mwyn gwneyd lle i Lys Tir, gobeithio y caiff y tenant ei hen hawliau, tra y bo ewylllys y bobl, fel ei cynrychiolir yn y Senedd, yn cymeryd lle ewylllys yr hen arglwydd.

Ond, tan ysgwrsio am hen hanes Mawddwy, dyma ni yng ngolwg y llan. Daethom drwy goed, croesasom aber Pumrhyd, a dyma'r persondy a'r eglwys. Yma y bu Ab Ithel yn astudio llenyddiaeth Gymreig; yma y bu Silvan Evans ar ei ol, yn ymgolli yn yr un gwaith, ond gyda llawer mwy o allu a llwyddiant. Troisom i mewn i'r fynwent, i edrych ar yr hen ywen fforchog ac ar feddau'r ganrif o'r blaen. Yr oedd yn ddiwrnod gaeaf hyfryd iawn, ac yr oedd tawelwch a mawredd o'n cwmpas,—mynyddoedd dan eu barrug yn edrych ar yr ywen, yr unig beth oedd wedi cadw gwyrddlesni'r haf. Bechan iawn yw'r eglwys, a newydd. Byddai'n hynod flynyddoedd yn ol am ei charolau, a chyrchai rhai iddi o bellteroedd dros y mynyddau ar foreu Nadolig. Ni welsom ddim hen ynddi, ond hen fedyddfaen a hen gader. Gwelsom yno ysgrifen ar bres am ddiweddar ddeon Bangor. Yma y ganwyd ef; ac os nad wyf yn methu, yma y ganwyd ei frawd, esgob Llanelwy. O leiaf cyfarfyddasom un ddywedai ei fod wedi ymladd llawer â'r esgob pan oedd y ddau yn blant.

Daeth gwraig lygatddu heibio, a chawsom beth hanes ganddi.



"Cymraeg, dyn a'ch helpo, 'does yma ond Cymraeg," meddai.

"Ai Cymraeg bregethir yn yr eglwys?"

"Ie yn y gaeaf, a phob amser o ran hynny, ond pan fydd byddigions yn y Plas."

Druan o'r hen Gymraeg, dyna ei hanes hi o hyd,—Cymraeg yng ngaeaf ymdrech ac adfyd, a Chymraeg i'r werin; ond Saesneg pan weno ffawd ychydig, a Saesneg, ar gost gwlad gyfan, i fyddigions y Plas. Fel mewn pob gwlad lle ceir cariad at yr hyn sydd hen, y mae parch eithafol yng Nghymru i foneddwr; ond gwyn fyd na fyddai Cymro'n rhy anibynnol i aberthu ei iaith a'i grefydd, beth bynnag arall abertho, wrth ymgreinio o flaen un yn siarad iaith ddieithr.

"Ymhell y bo dy Gymraeg di," ebe'm cyd-ymaith byrr ei amynedd, "dyna ni wedi gadael i'r ddynes fynd heb ofyn lle mae bedd yr hen Wilym Llwyn Gwilym; a hwyrach na ddaw neb trwy'r pentref eto am ddarn diwrnod."

Yr oeddym wedi addaw i'm tad y gofynnem lle'r oedd bedd yr hen Wilym. Crwydrodd lawer o fynydd i fynydd i hela, ac o dafarn i dafarn i ymddiddan a chanu. Un mwyn iawn ei ysgwrs oedd, yr oedd o ymddanghosiad ty-wysogaidd, a chai groesaw mawr ymhob man. Y mae llawer o hen bobl yn cofio mor fwyn y canai ymysg ei gyfeillion lliosog,—

O na byddem ni modd ag y buom  
 Cyn gweled ein gilydd erioed,  
 Neu ynte ein bod heb ein geni,  
 Os oes ymadawiad i fod,  
     I fod, i fod,  
 Os oes ymadawiad i fod.

Unwaith, pan yn hela yn y Creigiau Bach, dal-iwyd ef gan gipar. Yr oedd yn ddigon mawr a nerthol i dafu'r cipar dros y gwrych, yn lle hynny gwahoddodd ef i eistedd ar dwmpath brwyn, a rhoddodd iddo licer o gostrel oedd yn ei boced, gyda haelioni mawr. Cyn pen ychydig yr oedd y cipar yn cysgu'n ddedwydd ar y mynydd, a'r hen Wilym Llwyn Gwilym yn clecian saethu'r petris o'i gwmpas.

Daethom o'r fynwent i'r pentref, a chawsom ymddiddan â nifer o blant bach bywiog a deallgar,—anaml y gwelais eu cyflymach yn unlle. Erbyn hyn yr oedd yn bryd meddwl am ymborth, ac yr oedd ein harosiad yn y fynwent wedi oeri tipyn ar ein gwaed. Gwelais fod yr unig westy wedi newid er pan welais ef ddiweddaf. Byddai arwydd Cymraeg wrth ben ei ddrws, o gyfansoddiad Ab Ithel meddir, fel hyn,—

## TAFARN YR HAUL.

Trwyddedwyd Rhisiart Rhys  
i werthu cwrw a phorter.

Ond erbyn heddyw y mae'r hen westy wedi troi yn *Sun Inn*. Yn fuan iawn yr oedd y tecell yn berwi uwch ben tân mawr glân, ac yr oedd llian gwyn ar y bwrdd; a diflannodd ein newyn a'n hanwyd ar fyrder.

“Beth ydyw ystyr yr ymadrodd ‘gwibed Mawddwy?’” ebe'm cydymaith.

“Hen *totem* y llwyth o bobl oedd yn byw yma ydyw'r gwibedyn. Tybiai'r llwyth ei fod yn disgyn o'r totem. Mochyn yw totem Mon, y ci yw un Dinbych, y carw yw un Dyffryn Tanad, yr ysgyfarnog yw un Pennant Melang-

ell. Bu'r enwau yn enwau anrhydedd, yna daethant yn llysenw; yn awr nid ydynt y naill na'r llall."

"Pam y mae mor ychydig o feirdd ym Mawddwy rhagor fu? Mae yma lai o ganu a difyrrwch o lawer."

"Un rheswm yw ysbryd gweithgar goludgarol yr oes. Ond ni fu Mawddwy erioed heb feirdd. Un o'i beirdd hi ganodd, yn oes ein tadau, un o emynnau goreu'r iaith Gymraeg,— "O tyn y gorchudd yn y mynydd hyn." Athrylith Tafolog, yn ein hoes ninnau, oedd y fwyaf tarawiadol yn llenyddiaeth Cymru am allu i ddarlunio'n eglur ac yn fyw; rhyfeddem at dlysnï a cheinder iaith pan fyddai ef yn ei defnyddio. Ac y mae beirdd yn aros ym Mawddwy, er fod ei rhydd-ddalwyr yn prinhaus, a'i hen aelwydydd yn mynd yn anghyfannedd y naill ar ol y llall.

Aethom i edrych am hen gyfaill i'w annedd brydferth ar ochr y bryn gerllaw. Wedi gwrs am fynd i'r gwesty yn lle mynd yno, cawsom lawer iawn o hanes hen Lan ym Mawddwy. Yr oedd ef wedi gweled llawer tro ar fyd, ac yr oedd ei feddwl yn llawn o bethau newydd a hen.

"Bydd pob cynhebrwng ym Mawddwy yn un mawr iawn oni fydd?"

"Bydd yn siwr. Bydd dau o bob ty braidd ymhob un. 'Faint aiff,' ebe pob teulu, 'faint o honyn nhw oedd yn ein claddedigaeth ni?' Byddant yn rhoi'r arian ar y garreg offrwm, neu ar raw'r clochydd. Byddai'r teulu cyfnasaf i'r corff yn sefyll wrth y garreg offrwm, a byddai'r clochydd yn talu diolch i bob un wrth eu henwau."

"Y mae tipyn o gost gyda chladdu mawr fel hyn?"

"Oes; ond byddai dyn tlawd yn sefyll y tu allan i'r fynwent, ac yn dal ei het, a byddai ei gymdogion yn tasfu rhywbeth iddi i'w helpu i ddwyn y draul."

"Oni fyddai meddwi mewn hen gynhebrwng?"

"Wedi claddu ai pawb i'r dafarn. Ai un a bowlen a phlat o gwmpas i hel pres; safai un arall mewn cornel i gymeryd yr enwau ar y papur siot. Wedi gorffen dywedai hwn,—Mae'r ty'n rhydd! Yna doi'r ddiod boeth a'r gacen gladdu i mewn. Cwrw a *spices* ynddo oedd y ddiod boeth, a rhyw dorth fraith oedd y gacen gladdu."

"A ydyw hwn yn myned ymlaen o hyd?"

"Mae meddwi eto, ond dim siotio."

Daeth yr hen wr drwy'r pentref i'n danfon adref, a heibio'r Bryn, plas Syr William Roberts, mewn lle prydferth wrth draed y mynyddoedd. Canmolai Syr William, gan adrodd hen ystraeon bob yn ail. Wedi ysgwyd llaw ag ef, buom yn gwyllo ei droediad ysgafn gwisgi drwy'r coed, ac yna gwelsom fod yn rhaid i ni gyflymu er mwyn croesi'r Bwlch cyn iddi dywyllu. Yr oedd Tap yr Eryr yn edrych yn ddu fygythiol o'n blaenau, fel pe'n gwyllo dechreu'r ffordd hir a serth sy'n arwain i Fwlch y Groes. Cerddasom yn gyflym drwy'r awyr denau oer, a phan gyrhaeddasom ben Bwlch y Groes yr oedd ffrwd o oleuni'r lleuad ar y creigiau a'r mynyddoedd mawreddog a'n hamgylchynent. Nis gallem siarad â'n gilydd gan syndod ac edmygedd, wrth adael yr olygfa fythgofiadwy o'n hol.

Y mae Pen Bwlch y Groes yn dod a thair ysgwrs i'm meddwl. Yr oedd y gyntaf yn y bore gyda hen wr, yr ail yn y prydawn gyda gŵr canol oed, a'r drydedd ar noson oleu leuad, debyg iawn i hon, gyda gŵr ieuanc.

Ryw fore yn yr haf, lawer blwyddyn yn ol, yr oeddwn yn eistedd yn blentyn ar ochr y ffordd ar ben y Bwlch. Wedi dod gyda'r codwyr maw'n yr oeddwn. Cawn segura oherwydd nas gallwn eto ladd mawn, er y medrwn eu codi a'u gwneyd. Gwelwn hen berson yn dringo'n araf o gyfeiriad Mawddwy. Yr oedd yn dal iawn, a cherddai'n wisgi a chyflym. Pan ddaeth ataf gwelwn fod ei wallt yn wyn, ond yr oedd ei lygaid yn dduon a chwareus. Eisteddodd yn fy ymyl, gan sychu ei chwys. "Pa ddod yma?" gofynnai. "Y mae eich ffordd chwi'n serthach, a fy ffordd i'n hwy," meddwn. "'Ffordd' yw'ch gair chwi," meddai, "ac nid wtra." A rywsut, llithrasom i son am eiriau. Dywedodd hefyd sut yr oedd gwneyd ffordd hir yn ffordd ferr. "Tynnwch ysgwrs a'r bobl welwch," meddai. "Holwch hwy. Cewch enw rhyw dŷ, neu ryw air, wna i chwi fyfyrion hyfryd nes y dowch at rywun arall." Daniel Silvan Evans oedd efe.

Bum yn eistedd bron yn yr un fan ar brydnawn. Yr oedd plismon yn eistedd wrth fy ochr. Ei waith ef oedd cadw'r heddwech ym Mawddwy, ac yr oedd wedi dod i derfyn ei rannir i gyfarfod ei gyd-swyddog o Benllyn. Yr oedd wedi ymdaflu i adrodd ei hanes ei hun. Cwynai ar ei ffawd. Beiai ei fam na roddasai addysg iddo. Dywedai mai nid plismon a ddy-


lasai fod, ond gŵr cyfoethog yn ymroddi i lenyddiaeth. Ymunodd â'r heddlu er mwyn cael dyrchafiad. Tybiai, ond codi yn uchel yn ei reng, y cai fynd i ymyl llyfrau ac y cai fwy o seibiant. Ond drylliwyd ei gynlluniau pan oedd yn rhoi'r cam cyntaf i fyny. Yr oedd yn yr Abermaw yn disgwyl am y prif-gwnstabl. Tybiodd y byddai'n well iddo gryfhau, os nid llonni, ychydig arno'i hun trwy yfed ychydig gwrw. Rhoddodd rhyw elyn whisci yn ei gwrw, neu ryw wirow niweidiol arall. Cododd y gymysgfa afiach i'w ben, a cholodd bob rheol ar ei feddyliau ac ar ei dafod. Yn lle derbyn ei ddyrchafiad gan ei uch-swyddog, rhoddodd iddo wers lem am ei ddiffygion ei hun. Wrth draethu, nid anghofiodd ddim achlod a glywsai am y prif-gwnstabl. Ni ddaeth dyrchafiad. Yn lle cael ei hun ar y ffordd i ryw ddinas fawr, lle cai dreulio ei oriau hamdden mewn llyfrgell. alltudiwyd ef i Ddinas Mawddwy. Nid oedd ganddo lygad at fawredd natur, na theimlad i'r tyner mewn llenyddiaeth. Ffaith yn unig apeliai ato,—dyddiad llyfr, lliw ei gas, ehangder poblogrwydd emyn, nifer argraffiadau traethawd. O dawelwch Bwlch y Groes, hiraethai am dref boblog; ymysg y grug, hiraethai am lwch llyfrgell. Na, nid mewn dinas fawr yr oedd i dreulio ei fywyd. Cofiaf byth am y siom oedd ar ei wyneb hirgul wrth gyfeirio pedwar bys hir a bawd o ddiystyrwch at y fro hyfryd odditanom,—“Ond *dyma'r* Ddinas ges i.” Efe oedd Charles Ashton.

Ar noson loergan fel hon,—adeg lleuad Medi mi gredaf,—safiwn gyda bachgen ieuanc tal goleubryd. Dod o Ddinas Mawddwy yr oedd

yntau, ac yr oedd wedi bod yn areithio yno ar wleidyddiaeth. Wedi'r ddarlith yr oeddym wedi cyrraedd Pen y Bwlch rywbryd rhwng hanner nos ac un. Yr oedd yn oleu fel dydd. Yr oedd y lleuad yn llawn, ac nid oedd cwmwl ar fron yr awyr dyner, oleu, glir. Draw ymhell, uwchlaw ei gartref ef, gwelem lyn fel gem ar fronnau'r mynyddoedd, yn filachio gan oleuni'r lleuad lawn. Tybiem mai Llyn Careini oedd. Ond prin yr adnabyddem unlle. Yr oedd pob man fel pe wedi ei droi'n ysbrydol. Yr oedd yr Aran, Craig yr Ogor, yr Arennig, a'r llu y tu hwnt iddynt, dan oleu tyn-erach na goleu yr un dychymyg. Gallasem dybio mai huno'n drwm yr oedd y mynyddoedd yn y dydd; ond eu bod yn awr wedi deffro, a'u bod yn fyw. "Welwch chwi, Owen," ebe'm cydymaith, "dacw Gymru wedi ei gweddnewid o'n blaenau. Gawn ni'n dau fyw i'w gweld wedi ei gweddnewid mewn gwirionedd?" Thomas Ellis oedd hwn.







PEN Y BRYN, LLANARMON



NANHORON.

## VII. PEN Y BRYN.

Y R oedd croesi'r Berwyn i gartref Ceiriog yn beth y rhoddaswn fy mryd arno er ys blynyddoedd lawer. Y mae llawer o amser er hynny, ond yr wyf yn cofio'n dda fod y wlad y tu hwnt i'r Berwyn, a'r mynyddoedd yr oedd Ceiriog mor hoff o ddweyd ei fod yn fab iddynt, yn fwy mawreddog a thawel nag yr oeddwn wedi dychmygu am danynt, er mai dychymyg byw plentyn oedd gennyf yr adeg honno.

Gadawsom y tren bore yng ngorsaf fechan Llandrillo, ar waelod Dyffryn Edeyrnion. O'n blaenau, dros wastadedd cul dyffryn Dyfrdwy, codai ochrau'r Berwyn, porfeydd gwartheg a defaid, sydd yn gwahanu gwlad Dyfrdwy oddiwrth wlad Ceiriog. Bore haf oedd, a hawdd y gallem gredu fod heddwch a llawnder yn teyrnasu bob amser yn y wlad hyfrydlon hon, hyd yn oed

“ Pan fo rhyfel yn y byd,  
Godrau Berwyn gwyn eu byd.”

Wedi mynd drwy bentre Llandrillo, a chroesi afonig, yr ydym yn dechreu dringo ochrau'r Berwyn. Cawn ffordd yn myned gydag ochr uchaf clawdd friddoedd, ac yr ydym yn graddol esgyn uwchlaw Dyffryn Edeyrnion, ac yn cael golwg sy'n ymehangu o hyd ar wlad Owen Glyn Dŵr ac ar wlad yr Ysgol Sul. Ond dylid cofio fod Dyffryn Ceiriog erbyn hyn mor hynod am ei Hysgol Sul ac am ei gwerin feddylgar ag ydyw gwlad cryd yr holi ac efrydu'r Ysgrythyrau. Wrth edrych ar fynyddoedd mawr Penllyn draw, daw teyrnged mab Dyffryn Ceiriog i Charles o'r Bala i'r cof,—

“ Ei einioes megis coelcerth wen  
 Oleuodd ein mynyddoedd;  
 Ond tymor bywyd ddaeth i ben,  
 Ac aeth y fflam i'r nefoedd;  
 Bu farw Charles, os marw yw  
 Ymollwng i orffwysfa,  
 Ond llosgi mae y marwor byw  
 Adawodd Charles o'r Bala.”

Ond gadewch i ni droi ein wyneb i tua'r mynydd, a dacw ben Cader Ferwyn yn edrych arnom. Nid oes fawr o lun ar y ffordd; bu unwaith yn ffordd dramwyol, pan fyddai gyrroedd gwartheg, wedi eu pedoli yn y gwaelod, yn cael eu gyrru ar hyd-ddi i farchnadoedd Lloegr. Heddyw y mae unigedd mawr. Gellid treulio dyddiau yma heb weled neb ond defaid ac adar y mynyddoedd. Rhedyn a grug,—ceir hwy yma mewn gwyrdd a choch nad oes eu tlysach yng ngerddi'r de. Nid ysblander hyf sydd yn eu lliwiau hwy, ond tynerwch gostyngedig purdeb

a mawredd y mynydd. Y fantell Fair euraidd fechan, ceir hithau'n gwenu oddiar lawer llechwedd o laswellt byrr a gwyrdd. Mae pob peth yn fawreddog, pob peth yn wylaidd, pob peth dan ddistawrwydd nerth yma. Nid yw rhuthr y storm ond swm bychan byrr ei hoedl dros y mynyddoedd mawr, y tawelwch distaw yma sy'n rhoi syniad i ni am wir gadernid.

“Clywir llais y dymhestl gref,  
A chwiban y corwyntoedd,  
Rhua croch daranau'r nef,  
Ond huno wna'r mynyddoedd.”

Bum yng nghanol storm yn y grug, ac yr oedd yn fawreddog iawn. Ond tawelwch hirddydd haf sydd ar y mynyddoedd heddyw. Y mae ambell lais er hynny. Weithiau croesem ffrwd o ddwfr glân grisialaidd, yn dwndwr ac yn chwerthin wrth lithro dros y graig. Dro arall clywem fref dafad, ac ar ddamwain adlais cri uchel o'r gwastadedd odditanodd. Ond dacw ehedydd bach, yr aderyn y mae Ceiriog mor hoff o ganu iddo, yn codi'n uwch uwch i'r awyr lās, ac yn tywallt nodau melus i lawr. Ac onid yw melusder y nodau hynny yn y gân,—

“Clywch, clywch foreuol glod,  
O fwyned yw'r defnynnau'n dod  
O wynfa lân i lawr.  
Ai mân ddefnynnau cân  
Aneirif lu ryw dyrfa lân  
Ddiangodd gyda'r wawr!

“Mud yw'r awel ar y waun,  
Brig y grug yn esmwyth gryn;

Gwranddo mae yr aber gain,  
 Yn y brwyn ymguddia'i hun.  
 Mor nefol swynol ydyw'r sain  
 Sy'n dod i ddeffro dyn.

“Cwyd, cwyd ehedydd, cwyd,  
 O le i le ar aden lwyd  
 Yn uwch, yn uwch o hyd;  
 Cân, cân dy ddernyn cu,  
 A dos yn nes at lawen lu  
 Adawodd boen y byd—  
 Canu mae, a'r byd a glyw,  
 Ei alaw lon o uchel le;  
 Cyfyd hiraeth dynol ryw  
 Ar ei ol i froydd ne;  
 Yn nes at Ddydd, yn nes at Dduw,  
 I fyny fel efe.”

Dyma ni ar ben y bwlch. Yr oedd y ffordd wedi colli mewn llawer man, ond cawsom olion o honi, a dyma ni'n gadael Cader Ferwyn ar y dde, ac yn cychwyn i lawr i Lanarmon. Y mae cwm hir iawn o'n blaenau, yn fynydd-dir am fill-tiroedd, a thraw yn ei waelod gwelwn y gwrychoedd a'r caeau yn dechreu. O darddle'r afon Ceiriog, y mae ei dyffryn yn debyg iawn i ugeiniau o ddyffrynnoedd Cymru, — caeau gwyrddion cysgodol a mynyddoedd eang mawr yn gorwedd o bobtu iddynt. Ac oni bai am Geiriog,—er fod Huw Morus yn un o feibion yr un dyffryn,—ni buasai pob Cymro'n gwybod mwy heddyw am yr ardal fynyddig hon nag am laweroedd o ardaloedd tebyg yn ein gwlad. Ond cofia llawer un y gallai awdwr “Alun Mabon” ddweyd am dano ei hun hefyd,—

“ Ar fin y mynydd ganwyd ef,  
 Ac fel yr hedydd rhyngo a'r nef  
 Fe ganodd lawer anthem gref,  
 Lle nad oedd carreg ateb.”

Wrth fynd i lawr i gyfeiriad y dyffryn, mae adgofion am ganeuon Ceiriog yn lliosogi. Onid dyma'r olygfa oedd o'i flaen pan yn breuddwydio yn “y gwely o Gymru,”—

“ Ar fawn dolydd Ceiriog mae'm pen,  
 A'm traed a gyrhaeddant Lanarmon;  
 Ac un o bob ochr im' mae  
 Moel Sarffle a Phen Cerrig Gwynion!”

Wedi hir daith dyma ni yn y caeau, ac y mae flordd rhwng dau wrych yn newid hyfryd ar ol blino bron ar brydferthwch eangderoedd y mynydd gwyllt. Awn heibio capel Llywarch; dacw Ddolwen ar y dde, cawsem groesaw mawr yno pe amser i droi, ac ysgwrs am hanes y byd, ac am gynnwys y *Faner*; y mae'r Sarffle yn rhywle yn ymyl, gyda'i hadgofion am hanes crefydd y dyffryn.

Yn y man down i bentref Llanarmon Dyffryn Ceiriog. Ar y dde y mae Nant y Glog, ac yno y mae cartref tri Richard Morris. I ddau o honynt hwy y mae Dyffryn Ceiriog i ddiolch am lawer o'i ddiwylliant a'i feddylgarwch, a da gennyf glywed fod yr ŵyr yn meddu gallu a dylanwad y tad a'r taid. Yr oedd y Richard Morris adwaenwn i, y canol o'r tri, yn un o'r gwyr mwyaf galluog a mwyaf dymunol a adwaenais erioed,—gŵr teilwng i fod yn dywysog

gwlad oedd. Y mae Migin yn ymyl; y mae'r gŵr yn frawd i wr Pen y Bryn. Os hoffwn droi yno, cawn luniaeth i'n nerthu i ddringo'r bryn. "Na, gwell i ni fynd yn ein blaenau." O'r gore, trown ar y chwith, a dechreuwn ddringo'r bryn. Yr ydym yn rhy flinedig i edrych ar y dyffryn,—cawn ei weled yfory wedi dadluddedu. Y mae'r ty'n union fel y darlunia John Thomas ef. Yr oeddwn wedi gweled y gŵr o'r blaen, yn chwilio am hesbwrn gollasid, ac wedi gwneyd fy meddwl i fyny ei fod yn un difyr ac—ond cyn i mi gael dweyd wrthych ddim o'i hanes, dyma ef yn ein cyfarfod. Y mae gwên ar ei wyneb o hyd, y mae'r llygaid duon yn llawn o chwerthin at yr ymylon bron bob amser, ac wrth ysgwrsio ag ef ar hyd y mynyddoedd, yn fwy na thrwy ddim arall, y deuais i i ddeall mwyaf ar y teimladau roddodd fod i rai o ganeuon perffeithiaf Ceiriog. Mae Mrs. Hughes yn nith i Geiriog, a hi sy'n awr yn hen gartref y bardd. Pryd o fwyd mewn ty croesawgar yn Nyffryn Ceiriog,—y mae pob ty yn groesawgar yno o ran hynny,—a chwsg ar ol crwydro hyd y mynyddoedd,—dont yn ol mewn adgof i ddadluddedu'r meddwl wedi llawer adeg o orlafur a phryder. Cawn olwg ar rai o bobl Llanarmon,—hwy ddarlunnir yng nghan-euon Ceiriog. Ond gadewch i ni orffwys heno, ac adlais ambell gân am y mynydd yn dwyn breuddwydion esmwyth,—

"Hen fynyddoedd fy mabandod,  
 Syllant eto ger fy mron;  
 Wele fi yn ail gyfarfod  
 Gyda'r ardal dawel hon;

Cwm wrth ochr cwm yn gorwedd,  
 Nant a nant yn cwrdd ynghyd,  
 A chlogwyni gwyllt aruthredd  
 Wylant uwch eu pennau'n fud."

---

" Glogwyn anwyl, hoff gan i  
 Yw hamdden am funudyn,  
 Taflu carreg i fy nghï,  
 Neu eistedd ar dy gribyn ;  
 Gwylïo'r afon glir islaw,  
 A gollwng fy myfyrion  
 I'r terfysglyd dreifydd draw,  
 Ym miwsig ei murmuron."

---

" Gyda phraidd y mynydd gwyllt,  
 Tynghedwyd ni a'n dyddiau ;  
 Llwybrau defaid, wÿn a myllt,  
 Yw'r llwybrau deithiwn ninnau ;  
 Weithiau tan y creigiau certh,  
 Yng nghanol y mynyddoedd,  
 Dim i'w wel'd ond brynïau serth  
 A thyner lesni'r nefoedd."

---


Y mae llawer blwyddyn faith er pan oedd-  
 ym yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog, ac er pan  
 adewais fy nesgrifiad egwan o'r fro ar ei han-  
 ner. Nid yw'r brodyr yn byw ym Migin a  
 Phen y Bryn mwy. Yn wir, nid wyf yn sicr a  
 oes rhywun yn byw yn hen gartref Ceiriog ;  
 hwyrach i mi glywed mai ceidwad helwriaeth  
 sydd yno.



Ond y mae enw Ceiriog yn dod yn fwy adnabyddus o hyd; a'i ganeuon yn fwsig beunyddiol, fel yr hen benhillion telyn, hyd yn oed i rai na wyddant ei enw. Yn ddiweddar cefais y fraint o ddarllen llu o'i lythyrau at gyfeillion. Teimlwn eu bod yn rhoi esbōniad i mi ar beth o'i ddyllanwad; teimlwn mai Ceiriog y dyn, syml a naturiol fel plentyn, yw Ceiriog y bardd. Y mae rhywbeth yn dryloew a gonest iawn ynddo; nis gallwn ddychmygu y medrai ffugio teimlad na gwyrddroi'r gwir. Unwaith y gwelais ef erioed,—cip arno yn ei orsaf wrth basio i arholiad,—a'r un argraff adawodd yr olwg arno ag a adawodd ei lythyrau a'i ganeuon. Dyn uniawn, yn canu'r gwir o'i galon, yw i mi.


Yr oedd ganddo beth meddwl o hono ei hun fel bardd, ar brydiau. Dro arall, ni chanai byth mwy. Ond yn ei afaith ac yn ei brudder yr oedd yr un mor dryloew onest. Codid ef i nerth ambell dro, hefyd, wrth feddwl am alluoedd oedd uwch nag ef. Breuddwydiodd lawer am Brifysgol i Gymru, ac am Eisteddfod ail-anedig, a gwnaeth ei ran at sylweddoli'r ddau freuddwyd.

Gonestrwydd syml Ceiriog sy'n cyfrif am swyn ei gân. Natur hoffus, hapus, oedd ei natur ef. Ni threiodd fod yn neb arall. Hir-aethai am Lanarmon, am ei fam, am ddyddiau ei blentyndod,—a rhoddodd ei hiraeth ar gân. Ac yn hyn bu'n adlais i fywyd gwerin bur, naturiol, a gonest. Yn ei gân adnebydd Cymru ei llais ei hun.





HEN BONT Y PANDY.



Y CWM CROES.

### VIII. BRYN MELYN.

Y MYSG holl gartrefi Cymru nid oes, mae'n bur debyg gennyf, gartref mwy mynyddig ac anghysbell na chartref J. R. Jones o Ramoth. Saif mewn cwm crawc-welltog digoed, ar gyrrau'r mynydd-dir mawr unig sy'n gorwedd rhwng cymoedd Meirion a bryniau hyfryd Maldwyn; ac erbyn heddyw nid oes ond y Bryn Melyn ei hun yn gartref pobl yn y cwm hwnnw. Bu Nant yr Eira, bwthyn bach eithaf clyd, yn gartref bechgyn cryfion a genethod gwridog; ond nid ydyw heddyw ond beudy neu furddyn ar fferm enfawr. Dywedir fod melin yn y cwm unwaith, a danghosir ei holion yn Nant y Tryfel; ond nid oes neb yn cofio dim o'i hanes. Ychydig yn uwch i fyny na'r Bryn Melyn a Nant yr Eira, y mae olion peth a elwir yn Eglwys Wen, a dywedir ar lafar gwlad fod y

fangre, sydd mor unig heddyw, unwaith yn gyrchfan llu. Bwthyn, melin, eglwys,—y maent oll yn adfeilion; ac nid oes drigle dynion yn y fan ond Bryn Melyn yn unig.

Pe cymerem ffordd drol Bryn Melyn o bentrefydd Llanuwchllyn, nid mewn dwyawr, os mewn tair, y cyrhaeddem y fan. Y mae'r ffordd yn drom iawn am y darn cyntaf, ac y mae'r golygfeydd yn rhai demtia'r pererin i aros ac eistedd o hyd. Ond y mae llwybr byrrach. Newydd adael Pont y Pandy, troer dros gamfa ar y chwith, a dringer llwybr Cae'r Ceunant. Wedi cyrraedd y gamfa ganol edrycher vn ol ac ymlaen ar ardaloedd Llanuwchllyn. Gofynned yr ymdeithydd iddo ei hun a welodd le mor bardd yn unlle, ac atebed yn onest na welodd erioed. Ymlaen y mae'r Aran yn ymgodi'n fawreddog y tu hwnt i geunant rhamantus; yn ol y mae'r haul, hwyrach, yn gor-euro'r Arennig a'r mynyddoedd heirdd sy'n gorwedd y tu hwnt i Gastell Carndochan.

Toc cyrhaeddir ffordd Cynllwyd, a phentref bychan gwasgarog fu unwaith yn fwy, o'r enw Pen Rhiw Dwrch. Yma clywyd llais soniarus "mab y Bryn Melyn" yn pregethu'n rymus lawer gwaith. Awn ymlaen, a'r Aran o'n blaenau o hyd, nes dod at bont a phentref arall, —na, nid oes ond dau dŷ lle y bu pentref dedwydd gynt,—ac yma trown o'r ffordd, gan ddilyn yr afon ar ein chwith. Yr Afon Fechan yw hon, ac y mae Bryn Melyn ar y llechwedd uwch ei phen i fyny ymysg y mynyddoedd acw.

Wedi gadael amaethdy'r Afon Fechan o'n hol, nid oes ond afonig a mynydd a rhos i'w gweled. Ambell i dro, wrth gerdded y llwybr hir mynyddig, gwelwn gopa'r Aran yn ddu dros

y gefnen o rosdir sydd ar y dde; ond y rhan amlaf, ni welir ond y cwm ei hun. Mynydd wedi ei bori'n llwm fel carped ydyw, a'r Lledwyn pengrwn yn edrych arno dros y rhedyn sydd ar ei fron. O y mae'n lle dedwydd yn yr haf! I ti, ddarlennydd, efallai ei fod yn oer ac unig; ond pe buaset wedi treulio dy febyd ynddo, nid oes lannerch yn ein dyffrynnoedd mwyaf clodfawr all gymharu a'i dlysi gwyllt. Nid oes goeden yn y golwg mae'n wir; ond mor lân yw dwfr yr afon ac mor adfywiol yw lliwiau'r rhedyn a'r brwyn! Dyma lygad y dydd gyda'i wyn a'i goch, dyma'r fantell Fair fechan euraidd; a dacw'r ehedydd yn codi codi i'r awyr las ddofn uwchben. Dyma "ffynnon tan y garreg,"—bum yn hiraethu am ei dwfr melus mewn afiechyd mewn gwlad bell; dyma lecyn tawel Pwll Cvnhybrvd, a llawer dadl fu ymysg y bugeiliaid pa un ai Pwll Cynhebrwng ynte Pwll Cynnar Bryd yw gwir ystyr yr enw.

Erbyn hyn y mae'r Bryn Melyn yn y golwg, yr ochr arall i'r afon. Y mae talcen y ty atom, ac y mae hanner cylch o goed teneu-frig o'i amgylch i'w amddiffyn rhag gwynt yr Aran. Toc dyma ni dan gysgod y Lledwyn, ac ar gyfer y ty. Saif rhyw hanner y ffordd i fyny'r bryn, a thrwy ei goed gwyrddion gwelwn ben brenhinol yr Aran a gwyneb daneddog Craig y Llyn. Disgynnwn i lawr at yr afon, a chroeswn hi dros bompren. Y tu ol i ni'n awr, y mae amryw lwybrau hirion yn arwain i fyny i borfeydd y deiaid ac at y pabwyr a'r mawn. Dacw'r corlannau hefyd, ac olion "melin" Nant y Tryfel. Ychydig oddiwrth yr afon y mae carreg, ar lan nant sydd yn rhedeg oddiwrth y ty, a elwir yn "bulpud John Ramoth." Y mae rhyw

ffermwr trafferthus wedi saethu darn o honi i fwrdd; ond y mae'r lle safai'r pregethwr, pan nad oedd ganddo gynulleidfa ond defaid, yno eto.

Dringwn yr allt, a deunw at y ty. Dyma ni yn y buarth, ar gyfer y ffordd sydd yn arwain i fyny i'r caeau. Y cyntaf peth welwn yw'r hen dŷ,—hen gartref y pregethwr,—wedi ei droi erbyn hyn yn helm drol a beudy. Yr oedd coed o'i ol ac o'i flaen, i'w gysgodi rhag gwynt yr ystorm a rhag gwynt miniog y dwyrain. Y mae'r ty newydd ychydig yn uwch i fyny, a'i lond o blant dedwydd iach fydd, gyda bendith, yn gaffaeliad i'w gwlad.

Bu llawer tro ar fyd er yr amser y bu J. R. Jones yn chwareu'n blentyn o amgylch y ffermdy unig hwn, ac y mae'r Bryn Melyn yn fwy unig nag erioed. Yn lle hel at eu gilydd i ymryson canu penillion, fel yn ei amser ef, tynn y bechgyn i'r pentref i bensynnu ac i lygad-rythu wrth yr oriau. Ni welir lluoedd yn cario mawn o'r mynydd acw fel cynt; glo sydd ym mhobman, a grat gwag pan fydd glowyr ar y streic. Ac ni welir tyria'n dod o babwyr a Fwlch y Pawl mwy, i bilio'r pabwyr glân ar hironos gaeaf; gwell gan yr oes hon ganwyll ddime goch-felen hell. Pe buasai J. R. Jones yn fyw, hawdd y gallaf gredu y codasai ei lais yn erbyn ein bywyd,—pan mai uchelgais y llafurwr yw gadael ei gartref iach ar fron y mynydd, ac ymdyrru i ryw bentref lleidiog llaith wedi ei osod mewn pwll ger gorsaf ffordd haearn; pan mai uchelgais llawer gwraig yw treulio holl ddyddiau ei bywyd i chwedleua hyd y pentref, a chael pob peth o'r siop, a byw ar goel. Er fod y ffordd i'r ysgol yn hir, ca'r plant fagwyd mewn

unigrwydd lawer gwell addysg na phlant pentref a thref.

Rhowch dro o amgylch cartref J. R. Jones o Ramoth. Y fath gwmni bendigedig o fynydd-oedd gafodd y bachgen! Pa ryfedd fod bechgyn o'le fel hyn yn wylaidd ac yn foneddigaidd wrth natur, a hwythau megis yn byw wrth draed gorseddau? Dyma le i rodio am oriau, a rhyw fynydd newydd i ddod i'r golwg o hyd. A dyma'r lle y tyfodd yr athrylith ryfedd honno. Dacw'r llwybrau hirion, dacw'r eglwys anghyfannedd, dacw'r mynyddoedd yn dysgu fod mawredd bob amser yn bur a syml. Y mae'r golygfeydd yn tentio'r meddwl i lwybrau newyddion.

Oddiwrth y ty croeswn y gefnen i gwm Cynllwyd. Ni fedraf fi ddesgrifio'r olygfa,—yn fud a syn y safwn ar gyfer y mynyddoedd mawreddog hynny. Ond dacw aml lecyn anwyl i J. R. Jones. Dacw Goed Ladur rhyngom a'r afon, lle bu'n canu penillion telyn, yn nyddiau ei ieuentyd, gan ymryson â mab y ty. Curwyd ef, meddai'r hanes, darfyddodd ei benillion. Ond ar y mynydd daeth pennill arall i'w gof, a dychwelodd yn y fan i'w ganu wrth ddrws Coed Ladur. Dacw'r Weirglodd Gilfach, ymhell yn y Cwm Croes, cyrchle Lewis Rhys, a chartref cyntaf Ymneillduaeth ymysg y mynyddoedd hyn. Dacw Dal Ardd, wrth fan cyfarfod y dyfroedd, lle bu Howel Harris yn cysgu cyn troi ei gefn ar y Gogledd, dan weddio dros ei thrigolion wrth esgyn Bwlch y Groes. Mangre dawel fynyddig ydyw, lle ardderchog i enaid ddal cymundeb â Duw,—os medr am ennyd anghofio am nod clust a phris y gwlan.



Treuliodd J. R. Jones ei fywyd mewn gwlad fynyddig fel hon. Ni feddylodd am ddefnyddio ei athrylith i ennill cyfoeth nac esmwythyd y byd hwn. Gallasai, pe wedi meddwl am hynny, dynnu maeth o ddyffrynnoedd brasaf Lloegr. Gallasai ymhoewi yng ngwychder ystafelloedd cyfoethogion ein trefydd mawr. Ond ym Meirion fynyddig yr arhosodd ar hyd ei oes, mewn caledfyd a thlodi. Pan oedd ei eiriau yn fywyd i ddynion, cariai fawn ar ei gefn o'r mynydd fel cynt.

"Mewn tlodi,"—na fu erioed. Cynysgaeddodd y nefoedd ef â'i chyfoeth ei hun, a bu J. R. Jones yn hael fel tywysog gyda'r cyfoeth hwnnw. Y mae ambell un nas gellir meddwl am dano fel dyn tlawd, er nad oes ganddo ddimau yn y banc, ac er na wyddis ar y ddaear beth y mae'n gael i ginio. Y mae rhyw gyfoeth yn ei fywyd a'i feddwl sydd yn ei godi uwchlaw tlodi bach a chyfoeth bach y byd hwn.

Tra'r oedd pobl ereill yng Nghynllwyd yn ymroi gorff ac enaid i gasglu aur, yr oedd J. R. Jones yn cyfoethogi ei feddwl. Mewn un ystyr yr oedd y dyn cyfoethocaf ar yr holl fynyddoedd, a thlawd druenus yu ei ymyl oedd perchennog enaid bach crebychlyd a mil o ddefaid. Beth bynnag ddysgo ein bechgyn yn ein colegau, dysgent y gall bywyd meddylgar ar y mynyddoedd fod yn llawnach a chyfoethocach na bywyd o ymgripió am arian a chlod.

## ADFYFYRION.

**W**RTH ddod yn ol i'r fan y cychwynnais ohono, y mae arnaf hanner ofn clywed cwestiynau,—I ba ddiben yr ysgrifennaist y llyfr hwn? Onid yw pob mynydd yr un fath a mynydd arall? Onid yw pob dyffryn yn debyg i ddyffryn arall? Onid daear yw'r oll? A phaham y tybi fod yr hyn a welli, a'r hyn a deimli, o'r dyddordeb lleiaf i neb arall?

Pe rhoddid fi ar fy mhrawf fel hyn, meidd-iwn furmur rhyw ddwy esgusawd cyn pledio euog.

Dyma un. Y mae Cymru y wlad fwyaf swynol dan haul i Gymro deithio ynddi, ac yn un o'r awledydd lle teithia leiaf ynddi. Ymhob rhan o Gymru, y mae taith ddfyfr ac adfywiol ac addysgiadol yng nghyrraedd pawb. Ac eto tynn llawer un i wlad bell i dreulio ei wyliau, gan adael rhagorach pethau,—a phethau y medrai eu deall,—yn ei ymyl. Bu adeg pan oedd yn ddigon naturiol i rai gwyno fod cylch y Cymro'n gyfyng. Fel arall y mae'n awr. Gwn am ugeiniau fu ar faes Waterloo, a rhai fu yng Ngwlad Canan, na fuont erioed ym Mhant y Celyn ac na wyddent ym mha le mae Dolwar.

A dyma esgusawd arall. "Mae'r oll yn gys-egredig,"—pob bryn a phant. Mae'n gwlad yn

rhywbeth byw, nid yn fedd marw, dan ein traed. Mae i bob bryn ei hanes, i bob ardal ei rhamant. Mae pob dyffryn yn newydd, pob mynydd yn gwisgo gogoniant o'i eiddo ei hun. Ac i Gymro, nis gall yr un wlad arall fod fel hyn. Teimla'r Cymro fod ymdrechion ei dadau wedi cysegru pob maes, a fod awen ei wlad wedi sancteiddio pob mynydd. A theimlo fel hyn a'i gwna'n wir ddinesydd.

“ Mae'r oll yn gysegredig. Mae barddoniaeth Nefolaidd ar yr holl fynyddoedd hyn.  
 A bu,—goddefer y gwladgarol nwyf,—  
 Bu llawer brawd a chyndad hoff i mi,  
 Na edwyn neb eu henwau mwy na'u clod,  
 Ond taweledig rith yr oes a'u dug,—  
 Ar hyd y bryniau hyn ar lawer nawn  
 Yn canu neu yn wylo fel y caed  
 Profiadau bywyd. Ninnau gyda hwynt  
 Adawn gymunrodd o adgofion per,  
 Rhyw anadliadau a myfyrion syn,  
 I'r awel dyner eu mynwesu fyth.

---

 CAERNARFON:

CWMNI'R CYHOEDDWYR CYMREIG (CYF.),  
 SWYDDFA "CYMRU."

